

Cynllun Datblygu Lleol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

2018-2033

Canllawiau Cynllunio Atodol Bioamrywiaeth (Drafft)

Hydref 2026

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND
County Borough Council

Cynnwys

Cynnwys i

Rhestr Termau ii

Acronymau xiii

1.0 Cyflwyniad 1

2.0 Cyd-destun Polisi a Deddfwriaethol 3

3.0 Cefndir 6

4.0 Fframwaith Cynllunio 8

5.0 Gofynion Cynllunio 11

Atodiad A – Adnoddau Allanol 39

Atodiad B – Rhestr wirio ar gyfer arolygon o rywogaethau gwarchodedig/blaenoriaethol sy'n debygol o fod yn ofynnol ar gyfer safleoedd datblygu tir 42

Atodiad C – Tymhorau Arolygon Ecolegol – Rhywogaethau'r Tir 46

Rhestr Termau

Cadwraeth	Cynnal, gwarchod rhag niwed neu ddinistr.
Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CRHAA)	Darperir manylion a manylebau ar gyfer mesurau ymarferol sydd wedi'u bwriadu i osgoi neu leihau i'r eithaf effeithiau andwyol ar fioamrywiaeth yn ystod y broses adeiladu. Fel arfer, paratoir adroddiadau o'r fath i gefnogi cais cynllunio lle mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) yn ei gwneud yn ofynnol i reolaeth gael ei gweithredu fel gofyniad ffurfiol, e.e. at ddibenion lliniaru, dulliau digolledu neu wella bioamrywiaeth. Gall y CRHAA fod yn rhan o'r wybodaeth a gyflwynir yn wreiddiol gyda'r cais (e.e. fel rhan o'r Asesiad o'r Effaith Ecolegol (AEE) neu gellir sicrhau y caiff ei ddarparu a'i gyflawni drwy amodau cynllunio neu rwymedigaethau. Nodir cynnwys priodol adroddiad o'r fath ym mhennod 10.2 BS42020.
Mesurau digolledu	Gwrthbwyso difrod anochel o ganlyniad i ddatblygiad.
Ecoleg	Gwyddor sy'n astudio sut mae pethau byw yn cysylltu â'i gilydd ac â'u hamgylchedd ffisegol.

Asesiad o’r Effaith Ecolegol	Asesiad i adnabod, gwerthuso, a lliniaru effeithiau datblygiad ar gynefinoedd, rhywogaethau, ac ecosystemau.
Nodwedd ecolegol	Elfen o'r amgylchedd sydd o werth o safbwynt bioamrywiaeth, gan gynnwys safleoedd a ddynodwyd am eu pwysigrwydd o ran cadwraeth natur; cynefinoedd blaenoriaethol; rhywogaethau blaenoriaethol; cynefinoedd sy'n darparu coridorau neu gerrig sarn ar draws y dirwedd a'r ardal drefol; a'r dirwedd ehangach.
Ecosystem	Cymuned sy'n cynnwys organebau byw a chydrannau di-fywyd megis aer, dŵr, a phridd mwynol.
Gwydnwch ecosystem	Gallu ecosystemau i ymdopi â phwysau, tarfu a newid – naill ai drwy eu gwrthsefyll, adfer ohonynt neu addasu iddynt. Mae sicrhau gwydnwch ecosystem yn ymwneud â gweithio ar raddfeydd mwy, hyrwyddo cysylltiadau swyddogaethol rhwng lleoedd naturiol, sicrhau bod ganddynt amrywiaeth naturiol uchel, eu bod mewn cyflwr da a chynyddu eu hehangder.
Gwasanaethau ecosystemau	Y 'gwasanaethau' neu'r manteision i bobl a bywyd gwyllt a ddarperir gan ecosystemau iach. Gall y rhain gynnwys rheoleiddio'r hinsawdd, cynhyrchu bwyd, a dŵr yfed ffres, er enghraifft.

	Mae ecosystemau iach yn hanfodol i sicrhau y byddwn yn parhau i elwa o'r gwasanaethau ecosystemau hyn yn y dyfodol.
Dull ecosystemau	Mae'r dull ecosystemau yn darparu fframwaith ar gyfer rheolaeth integredig tir, dŵr ac adnoddau byw sy'n hyrwyddo cadwraeth a defnydd cynaliadwy o'r tir mewn ffordd deg. Mae deddfwriaeth genedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i gymhwyso'r dull ecosystemau wrth ystyried pob datblygiad newydd.
Cynllun Monitro Ecolegol (CME)	Mae'n darparu cynigion manwl a strwythuredig ar gyfer paratoi strategaeth fonitro, cyn dechrau'r gwaith datblygu, a fydd yn cael ei defnyddio i sefydlu a yw'r mesurau lliniaru, digolledu a gwella arfaethedig wedi bod yn effeithiol dros gyfnod penodol. Gellir defnyddio'r strategaeth hefyd i ddarparu rhybudd cynnar ynghylch pryd y bydd camau wrth gefn a/neu gamau unioni yn cael eu 'gweithredu' os na fydd amcanion ecolegol yn cael eu cyflawni. Bydd gweithrediad y strategaeth dros amser yn cael ei lywio gan 'adroddiadau monitro ecolegol' ysbeidiol. Gall y strategaeth fod yn rhan o'r wybodaeth a gyflwynwyd yn wreiddiol gyda'r cais (e.e. fel rhan o'r AEE) neu gellir sicrhau y gellir ei darparu a'i gweithredu drwy

	amodau neu rwymedigaethau cynllunio. Dylai gwaith paratoi'r strategaeth, lle bo'n briodol, ddilyn y canllawiau cyffredinol a nodir yn Adran 5.0 isod. Nodir cynnwys priodol adroddiad o'r fath ym mhennod 11.2.3.4 safon BS42020.
Adroddiad Monitro Ecolegol (AME)	Mae'n darparu canlyniadau'r gwaith monitro ar ôl adeiladu ar gyfer prosiect datblygu fel 'darlun sydyn' ar gyfnod penodol o amser, fel sy'n ofynnol gan amod/rhwymedigaeth cynllunio neu drwy drwydded rhywogaethau a warchodir. Bydd yr adroddiad yn cynnwys disgrifiad o'r dulliau a ddefnyddiwyd yn ogystal â chanlyniadau manwl yr arolwg, a dehongliad/asesiad o'r canlyniadau. Nodir cynnwys priodol adroddiad o'r fath ym mhennod 11.2.3.4 safon BS42020. Mae 'adroddiad' monitro yn wahanol i 'gynllun' monitro ecolegol. Mae'r cyntaf yn darparu'r dulliau monitro a'u canlyniadau, tra bod yr ail yn darparu set gytunedig o nodau, amcanion a phrosesau ar gyfer monitro ac adolygu.
Cynllun Cyfyngiadau a Pharamedrau Ecolegol (CCPhE)	Map gofodol a ddefnyddir i nodi cyfyngiadau amgylcheddol ac i osod ffiniau eglur ar gyfer datblygiad.

Mesur gwell	I wneud rhywbeth yn well, yn gryfach, neu'n fwy gwerthfawr.
Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd (AEA)	Dull o ddod â gwerthusiad o'r effeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd sy'n deillio o ddatblygiad arfaethedig at ei gilydd mewn ffordd systematig.
Ffyngau	Mae ffyngau yn grŵp o organebau byw a geir ar y tir, yn y dŵr, yn yr aer, mewn planhigion ac anifeiliaid. Maent yn amrywio'n fawr o ran maint, o rai bach iawn o dan y microsgop i rai sy'n ymestyn dros sawl milltir sgwâr. Mae mwy na 100,000 o wahanol rywogaethau o ffyngau wedi'u nodi.
Seilwaith Gwyrdd (SG)	Rhwydwaith o fannau gwyrdd amlswyddogaethol, nodweddion naturiol a systemau rheoli amgylcheddol – o barciau gwledig, afonydd, nentydd, llynnoedd a choetiroedd i ymyriadau trefol megis toeau gwyrdd a choed stryd - sy'n helpu i ddarparu system cynnal bywyd naturiol i bobl a bywyd gwyllt.
Cynefin	Mae'n cyfeirio at nodwedd naturiol/ecolegol, neu set o nodweddion, sy'n darparu amgylchedd sefydlog y gall bywyd gwyllt fyw ynddo.
Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC)	Proses sy'n penderfynu, heb unrhyw amheuaeth wyddonol resymol, a allai cynlluniau datblygu gael effaith

	negyddol ar safle Ewropeaidd gwarchodedig cydnabyddedig.
Rhywogaethau Estron Goresgynnol (RhEG)	Unrhyw anifail neu blanhigyn nad yw'n gynhenid sydd â'r gallu i ymledu gan achosi niwed i'r amgylchedd, yr economi, iechyd a ffordd o fyw pobl. Darperir rhestr o RhEG yn Atodiad 9 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.
Rhywogaethau neu gynefinoedd/bioamrywiaeth 'Pwysig'	Bydd yr Awdurdod yn dilyn proses i lunio barn am y bioamrywiaeth sydd ar y safle, gan ystyried mesurau diogelu cyfreithiol, dynodiadau statudol ac anstatudol a'r holl ystyriaethau perthnasol eraill i bennu gwerth ecolegol.
Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecolegol (CRhTE)	Darperir cyfarwyddiadau a phrosesau ar gyfer rheoli a gweithredu safle. Darperir y cyfarwyddiadau yn y ddogfen hon, sy'n benodol i'r safle, i sicrhau y gellir amddiffyn a gwella'r ecoleg a'r bioamrywiaeth ar safle datblygiad, ac yn ei amgylchoedd.
Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (CGBLl)	Cynllun i nodi blaenoriaethau lleol ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth ynghyd â gweithredoedd a thargedau cytunedig ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaethol a bywyd gwyllt a safleoedd sy'n bwysig yn lleol.

Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNLl)	Ardaloedd o dreftadaeth naturiol sy'n bwysig yn lleol o leiaf.
Cynnal	Dim colled net o ran bioamrywiaeth.
Lliniaru	Llunio mesurau i leihau i'r eithaf y niwed anochel i fioamrywiaeth.
Treftadaeth naturiol	Yng nghyd-destun y CCA hyn, mae treftadaeth naturiol yn cyfeirio at fioamrywiaeth, harddwch naturiol ac amwynder. Mae'n cwmpasu'r perthnasoedd rhwng tirffurfiau a'r dirwedd, cynefin a bywyd gwyllt, a'u gallu i gynnal gweithgarwch economaidd ac i gynnig pleser ac ysbrydoliaeth. Mae'n cynnwys safleoedd a ddynodwyd yn statudol, ardaloedd trefol, cefn gwlad, yr arfordir a nodweddion dŵr agored.
Planhigion	Mae hyn yn cynnwys: (i) planhigion isaf sy'n cynnwys bryoffytau (mwsogl a llysiau'r afu), cen, ac algâu (gan gynnwys diatomau); a (ii) phlanhigion uwch neu blanhigion fasgwlaidd sy'n cynnwys coed, llwyni, perlysiau blodeuol, rhedyn ac ati.

Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (RhANG)	Rheoli tir, dŵr, pridd, planhigion ac anifeiliaid, gyda ffocws arbennig ar ddarparu atebion sy'n seiliedig ar fyd natur ac sy'n sicrhau gwell ansawdd bywyd i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol drwy gynnal gwerth bioamrywiaeth a gwydnwch ecolegol (stiwardiaeth).
Creu lleoedd	Mae'n broses ac yn offeryn i ddylunio a rheoli'r parth cyhoeddus ar y cyd, er mwyn creu lleoedd o safon y mae pobl yn dymuno byw a gweithio ynddynt, sy'n ddeniadol, yn hygyrch, yn ddiogel ac sy'n cefnogi rhyngweithio cymdeithasol a chyfleusterau.
Asesiad Ecolegol Rhagarweiniol (AERh)	Y term a ddefnyddir i ddisgrifio asesiad cyflym o'r nodweddion ecolegol sy'n bresennol, neu sydd o bosibl yn bresennol, o fewn safle a'i ardal gyfagos (y parth neu'r parthau dylanwad mewn perthynas â phrosiect penodol (datblygiad arfaethedig fel arfer)).
Cynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaethol	Y rhai a gynhwysir yn y rhestr o gynefinoedd a rhywogaethau a nodwyd o dan adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.
Safleoedd Daearegol o Bwys Rhanbarthol (SDBRh)	Safleoedd o bwysigrwydd rhanbarthol a lleol oherwydd eu daeareg nad ydynt wedi'u dynodi'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

Safleoedd o Bwys ar gyfer Cadwraeth Natur (SoBCN)	Safleoedd a ddynodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol Amnewidiol ar sail eu gwerth lleol sylweddol i fywyd gwyllt, bioamrywiaeth, neu nodweddion daearegol.
Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)	Dynodiad cadwraeth ffurfiol ar gyfer ardal sydd o ddiddordeb arbennig i wyddoniaeth oherwydd y rhywogaethau planhigion neu anifeiliaid prin sydd ynddo, neu nodweddion daearegol neu ffisiolegol pwysig a all fod o fewn ei ffiniau.
Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)	Ardaloedd gwarchodedig a ddynodwyd o dan reoliadau cenedlaethol. Maent yn rhan o rwydwaith o safleoedd cadwraeth pwysig o ansawdd uchel sy'n cyfrannu'n sylweddol at warchod y cynefinoedd a'r rhywogaethau a nodir mewn Cyfarwyddeb Cynefinoedd. Gall y rhain fod ar y tir neu ar y môr. Maent yn rhan o'r 'rhwydwaith safleoedd cenedlaethol', ynghyd ag ‘ardaloedd gwarchod arbennig’ (AGA).
Ardaloedd Gwarchod Arbennig (AGA)	Ardaloedd gwarchod adar yn y DU wedi'u dosbarthu o dan reoliadau cenedlaethol. Maent yn rhan o'r 'rhwydwaith safleoedd cenedlaethol' ynghyd â SACs.

Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (ASAN)	Sylfaen dystiolaeth y gall gweinidogion Llywodraeth Cymru ei defnyddio wrth baratoi neu adolygu'r Polisi Adnoddau Naturiol, y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ei defnyddio wrth baratoi datganiadau ardal, ac y dylai awdurdodau cynllunio lleol ei defnyddio wrth adnewyddu cynlluniau datblygu lleol.
Ymgynghorydd ecolegol cymwys	Mae'n cyfeirio at unigolion proffesiynol sy'n gallu darparu lefel addas o arweiniad arbenigol ar faterion bioamrywiaeth ac ecolegol. Nid yw'r CCA hyn yn gallu cynnig argymhellion unigol ar gyfer ymgynghorwyr ecolegol. Fodd bynnag, mae Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (CIEEM) yn un o'r prif gyrff proffesiynol sy'n hyrwyddo arfer da a phroffesiynoldeb ym maes ecoleg a dylid cysylltu â hwy pan geisir cyngor ecolegol proffesiynol.
Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS)	Eu diben yw rheoli risgiau llifogydd a llygredd sy'n deillio o ddŵr ffo trefol ac i gyfrannu, lle bynnag y bo modd, at wella'r amgylchedd a chreu lleoedd. Gan ystyried hynny, dylid bob amser ystyried natur amlswyddogaethol SuDS.
Datblygiad cynaliadwy	Datblygiad sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu

	cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Acronymau

CRhAA	Cynlluniau Rheoli Amgylcheddol Adeiladu
CIEEM	Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol
DDM	Datganiad Dylunio a Mynediad
DECCA	Fframwaith Amrywiaeth, Cwmpas, Cyflwr, Cysylltedd a Hyblygrwydd
RhD	Rheoli Datblygiad
AEE	Asesiad Effaith Ecolegol
CCChE	Cynllun Cyfyngiadau a Chyfleoedd Ecolegol
CCPhE	Cynllun Cyfyngiadau a Pharamedrau Ecolegol
AEE	Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd
SGE	Safle Gwarchodedig Ewropeaidd
SG	Seilwaith Gwyrdd
ARC	Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
RhEG	Rhywogaethau Estron Goresgynnol
CGBLI	Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol
CDLIN	Cynllun Datblygu Lleol Newydd
CRhTE	Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecolegol
ACLI	Awdurdod Cynllunio Lleol
CGANLI	Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol
CGAN	Cynllun Gweithredu Adfer Natur
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
AERh	Asesiad Ecolegol Rhagarweiniol
PCC	Polisi Cynllunio Cymru
CCS	Corff Cymeradwyo SuDS
AGA	Ardal Gwarchod Arbennig
CCBDDdC	Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru
SoBCN	Safle o Bwys ar gyfer Cadwraeth Natur
RhANG	Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

ASAN	Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cymru
AAA	Ardal Amddiffyn Arbennig
CCA	Canllawiau Cynllunio Atodol
SoDdGA	Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
SuDS	Systemau Draenio Cynaliadwy
TAN	Nodyn Cyngor Technegol
Deddf LICD	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
LIC	Llywodraeth Cymru



Afon Ogwr yn Glanrhyd

1.0 Cyflwyniad

1.1 Pwrpas y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) hyn yw cefnogi a darparu cyfeiriad pellach ar weithrediad polisïau o fewn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) a fabwysiadwyd (Mawrth 2024), sy'n ymwneud â diogelu a gwella cynefinoedd a'r amgylchedd sy'n galluogi bywyd gwyllt i ffynnu. Mae'n amlinellu sut y dylai cynigion datblygu warchod, cynnal a gwella bioamrywiaeth, a sicrhau Budd Net i Fioamrywiaeth (BNB) yn unol â gofynion yr CDLlN a pholisi cynllunio cenedlaethol. Ei bwrpas yw egluro sut y dylai ymgeiswyr, datblygwyr, a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ddehongli a gweithredu gofynion y polisïau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth drwy gydol y broses o gynllunio, dylunio, asesu a darparu cynigion datblygu.

1.2 Pan gânt eu mabwysiadu, bydd y CCA hyn yn dod yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar bob cais cynllunio ar gyfer datblygiad, gan gynnwys ceisiadau i adnewyddu cydsyniadau.

1.3 Anogir unrhyw un sy'n dymuno cyflwyno cais am ddatblygiad o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i ystyried y CCA hyn ac i gysylltu â'r awdurdod cynllunio lleol (ACLl) cyn cyflwyno cais, i drafod y materion a godir yn y ddogfen hon ar sail safle-benodol.

1.4 Mae'r CCA hyn yn cynnig arweiniad penodol ar:

- Weithredu gofynion bioamrywiaeth y CDLlN ar gynigion datblygu.
- **Gweithredu'r dull cam wrth gam (hierarchaeth lliniaru)** i osgoi, lleihau i'r eithaf, adfer ac, lle bo angen, gweithredu mesurau i ddigolledu am effeithiau anochel ar fioamrywiaeth.
- **Diogelu, cynnal a gwella bioamrywiaeth**, gan gynnwys cynefinoedd, rhywogaethau, a rhwydweithiau ecolegol.
- **Darparu Budd Net i Fioamrywiaeth** trwy ddylunio da a seilwaith gwyrdd (SG) amlswyddogaethol .

- **Gweithredu fframwaith DECCA (Amrywiaeth, Maint, Cyflwr, Cysylltedd a Hyblygrwydd gwydnwch ecosystem)** i helpu i greu ecosystemau mwy gwydn a mwy cysylltiedig sy'n addasu i'r hinsawdd.
- **Paratoi a chyflwyno gwybodaeth a thystiolaeth ecolegol** sy'n ofynnol i gefnogi ceisiadau cynllunio ac i ddangos cydymffurfiaeth â pholisi.



Glöyn Trilliw Bach ar Buddleia davidii

2.0 Cyd-destun Polisi a Deddfwriaethol

2.1 Mae'r cyd-destun polisi cynllunio cenedlaethol ar gyfer darparu a rheoli bioamrywiaeth drwy'r system gynllunio wedi'i nodi yn Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040, Polisi Cynllunio Cymru (PCC) a Nodiadau Cyngor Technegol (TANs) 5 (Cadwraeth Natur a Chynllunio), 6 (Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy) a 12 (Dylunio). Yn ogystal â pholisi cynllunio cenedlaethol, mae sawl darn allweddol o ddeddfwriaeth sy'n sail i warchod a gwella bioamrywiaeth ac sy'n berthnasol i baratoi a phenderfynu ar gynigion datblygu.

Deddfwriaeth Genedlaethol

2.2 Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015** yn amlinellu diffiniad o "ddatblygu cynaliadwy" fel 'y broses o wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, â'r nod o gyflawni'r nodau llesiant.'

2.3 **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** yw'r fframwaith cyfreithiol sy'n sail i'r ymgyrch dros Fudd Net i Fioamrywiaeth, gan gynnwys Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau ('Dyletswydd Adran 6') lle mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gynnal a gwella bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau. Cefnogir Dyletswydd Adran 6 o'r Ddeddf gan fframwaith DECCA, sy'n cynnwys amrywiaeth, maint, cyflwr, cysylltedd, a hyblygrwydd ecosystemau. Mae Adran 7 yn cynnwys rhestr statudol o gynefinoedd a rhywogaethau o sy'n hollbwysig ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru.

2.4 Mae **Deddf Newid Hinsawdd y DU 2008** yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU adrodd ar addasu i newid hinsawdd o leiaf bob 5 mlynedd. Mae SG yn elfen allweddol o'r ymateb addasu hwn i newid hinsawdd, gan hefyd warchod, gwella ac adfer bioamrywiaeth drwy greu a rheoli cynefinoedd aml-swyddogaethol a rhwydweithiau ecolegol.

2.5 Mae **Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd)** yn anelu at warchod cannoedd o safleoedd bywyd gwyllt ledled y DU yn ogystal â'r rhywogaethau gwarchodedig sy'n byw yn yr ardaloedd hyn.

2.6 Mae **Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd)** yn ei gwneud yn drosedd i ladd, anafu neu gymryd unrhyw anifail gwyllt a restrir o dan Atodiad 5 y Ddeddf yn fwriadol, ac yn gwahardd ymyrryd ag anifeiliaid neu darfu arnynt. Mae'r Ddeddf hefyd yn gwahardd dulliau penodol o ladd anifeiliaid gwyllt, eu hanafu, neu eu dwyn .

Polisïau Cynllunio Cenedlaethol

2.7 **Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040** yw'r fframwaith datblygu cenedlaethol, sy'n gosod y cyfeiriad ar gyfer datblygu yng Nghymru hyd at 2040. Mae Polisi 9 'Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn a Seilwaith Gwyrdd' yn ceisio sicrhau bod camau tuag at sicrhau cynnal a gwella bioamrywiaeth (i ddarparu budd net), gwydnwch ecosystemau ac asedau SG yn cael eu dangos fel rhan o gynigion datblygu drwy ddulliau arloesol, sy'n seiliedig ar natur, ar gyfer cynllunio safleoedd a dylunio'r amgylchedd adeiledig.

2.8 Cafodd **PCC (Rhifyn 12)** ddiweddariadau wedi'u targedu yn 2023 i gryfhau'r amddiffyniad a'r gwaith o wella bioamrywiaeth mewn datblygiadau newydd. Mae'r prif newidiadau yn cynnwys gofyniad i bob cynnig ddangos Budd Net i Fioamrywiaeth gan ddefnyddio dull gam wrth gam (osgoi, lleihau, lliniaru,digolledu), mesurau digolledu cryfach ar gyfer safleoedd dynodedig fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), ac integreiddio SG, coed a choetiroedd i ddyluniad datblygiadau. Mae'r diweddariadau hefyd yn annog atebion sy'n seiliedig ar fyd natur i gefnogi gwydnwch ecosystemau, alinio datblygiad â blaenoriaethau bioamrywiaeth lleol, a sicrhau rheolaeth ecolegol hirdymor.

2.9 Mae **TAN 5: Cadwraeth a Chynllunio Natur (2009)** yn diffinio sut y dylai datblygiad gyfrannu at warchod a gwella bioamrywiaeth a chadwraeth ddaearegol.

2.10 Mae **TAN 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010)** yn darparu canllawiau i ddatblygwyr i gefnogi sefydlu cymunedau gwledig cynaliadwy, gan gynnwys cefnogi bioamrywiaeth.

2.11 Mae **TAN 12: Dylunio (2009)** yn rhoi cyngor ar 'hyrwyddo cynaliadwyedd trwy ddylunio da'; ac ar baratoi a dilysu Datganiadau Dylunio a Mynediad (DDM) gorfodol.

Polisïau, Cynlluniau a Strategaethau Lleol

2.12 Mae **Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sir Pen-y-bont ar Ogwr 2023-28** yn cynnwys 'Amcan Llesiant 5', sy'n anelu at ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur, drwy:

- Symud tuag at sero net carbon;
- Gwella effeithlonrwydd ynni adeiladau a gwasanaethau;
- Diogelu tirweddau a mannau agored y Fwrdeistref Sirol a phlannu mwy o goed;
- Lleihau, ailddefnyddio neu ailgylchu cymaint o wastraff â phosibl; a gwella amddiffynfeydd rhag llifogydd a chynlluniau i leihau llifogydd i gartrefi a busnesau i'r eithaf.

2.13 Mae'r **Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Leol** (CGBLl) yn asesiad ar draws y Fwrdeistref Sirol o fioamrywiaeth a chyfleoedd i ganolbwyntio gweithredu er mwyn diogelu, adfer a gwella bioamrywiaeth yn lleol.



Llyffant Du (Bufo bufo)

3.0 Cefndir

3.1 Mae amgylchedd naturiol ffyniannus yn hanfodol i greu lleoedd cynaliadwy, iach a gwydn lle gall pobl fyw'n dda. Mae bioamrywiaeth – yr amrywiaeth o organebau byw, gan gynnwys planhigion, anifeiliaid, ffyngau a micro-organebau, ynghyd â'r cynefinoedd a'r ecosystemau y maent yn eu ffurfio – yn sail i, ac yn cefnogi, 'systemau' amgylcheddol naturiol. Mae'r rhain yn cynnwys aer, dŵr, priddoedd ffrwythlon, cynhyrchu bwyd, rheoleiddio llifogydd yn naturiol, rheoleiddio'r hinsawdd, peillio, a chyfleoedd ar gyfer hamdden ac addysg yn yr amgylchedd naturiol.

3.2 Yng Nghymru, mae un o bob chwe rhywogaeth ar hyn o bryd dan fygythiad o ddifodiant ac yn 2021, datganodd y Senedd 'argyfwng natur' i gydnabod hyn. Mae'r argyfwng amgylcheddol wedi'i waethygu gan yr argyfwng hinsawdd, ac mae'r ddau argyfwng yn gynhenid gysylltiedig ac yn atgyfnerthu ei gilydd. Mae newid hinsawdd yn cyflymu colli bioamrywiaeth drwy newid yn gyflym yr amodau amgylcheddol y mae rhywogaethau wedi addasu iddynt, a gall diraddio a cholli ecosystemau ryddhau carbon sydd wedi'i storio a lleihau eu gallu i amsugno carbon deuocsid o'r atmosffer, gan waethygu newid hinsawdd ymhellach.

3.3 Mae gan y system gynllunio rôl allweddol i'w chwarae wrth alluogi gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth, gan lywio sut y caiff datblygiadau newydd eu dylunio a'u gweithredu. Yng Nghymru, mae Budd Net i Fioamrywiaeth yn bolisi cynllunio cenedlaethol sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob datblygiad newydd adael bioamrywiaeth ac ecosystemau mewn cyflwr gwell y gellir ei fesur nag yn flaenorol. Mae PCC yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau gymhwyso'r 'dull cam wrth gam' a Fframwaith DECCA, gan fod y rhain yn darparu dull o gyflawni Budd Net i Fioamrywiaeth. Mae'r dull cam wrth gam yn broses raddol i osgoi, lleihau i'r eithaf, lliniaru, a digolledu am unrhyw ddifrod i fioamrywiaeth a achosir gan ddatblygiad. Anogir datblygwyr hefyd i geisio cyfleoedd i wella bioamrywiaeth ym mhob cam o'r broses. Mae Fframwaith DECCA yn nodi pum priodoledd graidd sy'n cefnogi gwydnwch ecosystemau gyda'i gilydd; amrywiaeth, maint, cyflwr, cysylltedd, ac addasrwydd. Gall cymhwyso'r dulliau

polisi hyn i ddatblygu ddechrau arafu dirywiad bioamrywiaeth, a'i wyrdroi yn y pend draw.

4.0 Fframwaith Cynllunio

4.1 Mae'r CDLlN yn pwysleisio pwysigrwydd rôl y system gynllunio wrth warchod a gwella bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau. Mae'r fframwaith cynllunio strategol ar gyfer mwyafu buddion bioamrywiaeth wedi'i nodi o fewn Polisi Strategol 17 (SP17) a chaiff ei gefnogi gan Bolisïau Rheoli Datblygiadau (RhD) DNP1 – DNP9:

SP17: Cadwraeth a Gwella'r Amgylchedd Naturiol
DNP1: Datblygiadau yng nghefn gwlad
DNP2: Trosi Adeiladau Gwledig
DNP3: Anheddau Newydd yng Nghefn Gwlad
DNP4: Ardaloedd Tirwedd Arbennig
DNP5: Safleoedd Cadwraeth Natur Lleol a Rhanbarthol
DNP6: Bioamrywiaeth, Rhwydweithiau Ecolegol, Cynefinoedd a Rhywogaethau
DNP7: Coed, Gwrychoedd a Datblygiad
DNP8: Seilwaith Gwyrdd
DNP9: Diogelu Adnoddau Naturiol ac Iechyd y Cyhoedd

4.2 Mae Polisi Strategol SP17 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau osgoi effeithiau andwyol ar fioamrywiaeth, cynefinoedd naturiol ac adnoddau naturiol, gan gynnwys dŵr, aer a phridd. Rhaid i gynigion sy'n debygol o effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (AChA), Ardaloedd Gwarchod Arbennig (AGA) neu safleoedd Ramsar fod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC). Ni chaniateir cynigion oni bydd yr ARhC yn dangos nad oes unrhyw effeithiau andwyol, neu lle na ellir osgoi effeithiau andwyol, nad oes unrhyw ddewisiadau amgen, bod y datblygiad o fudd i'r cyhoedd o'r pwys mwyaf, a bod mesurau digolledu priodol yn cael eu darparu. Rhaid i gynigion o fewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) neu rai sy'n effeithio ar safle o'r ddiogelu, cefnogi neu, lle bo modd, gwella ei nodweddion arbennig a nodwyd.

4.3 Mae'r polisïau RhD ategol yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr warchod a gwella seilwaith gwyrdd a glas i gefnogi bioamrywiaeth, ac i ddiogelu

safleoedd dynodedig sydd o werth i fywyd gwyllt. Dylid ystyried bioamrywiaeth yng nghamau cynharaf datblygiad er mwyn sicrhau y caiff ei gwarchod a'i gwella yn y tymor hir.

4.4 Mae Polisi DNP5 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiad o fewn neu ger Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNLl), SoBCN a Safleoedd Daearegol o Bwys Rhanbarthol (SDBRh) fod yn gydnaws â'u cadwraeth natur neu ddiddordeb gwyddonol, ac i hyrwyddo eu rôl addysgol. Ni chaniateir datblygiad sy'n effeithio'n andwyol ar y safleoedd hyn, oni bai bod y manteision yn gorbwyso'r niwed a/neu y gellir osgoi, lleihau neu fynd i'r afael â'r niwed drwy fesurau lliniaru neu ddigolledu priodol.

4.5 Mae Polisi DNP6 yn ei gwneud yn ofynnol i bob datblygiad ddarparu Budd Net i Fioamrywiaeth a gwella gwydnwch ecosystemau. Dylid cadw, gwella neu greu bioamrywiaeth a nodweddion SG lle bynnag y bo modd, drwy ddyluniad safle priodol ac egwyddorion SG. Rhaid i ddatblygiad gynnal, diogelu a gwella bioamrywiaeth, rhwydweithiau ecolegol a gwasanaethau ecosystemau, gan roi pwyslais arbennig ar gynnal cysylltedd ar gyfer rhywogaethau a warchodir a rhai blaenoriaethol. Lle byddai datblygiad yn effeithio'n andwyol ar gysylltedd ecolegol neu'n effeithio'n sylweddol ar wydnwch cynefinoedd neu rywogaethau a warchodir, rhaid dangos bod yr angen am y datblygiad yn gorbwyso gwerth cadwraeth natur, nad oes lleoliad arall boddhaol, a bod elfen weithredol a chysylltiedig o'r adnodd naturiol yn cael ei chadw a'i gwella. Rhaid lleihau niwed anochel drwy liniaru effeithiol; lle nad yw hyn yn ymarferol, rhaid i fesurau digolledu ddarparu gwerth ecolegol cymaradwy neu fwy, gan gynnwys drwy greu cynefinoedd neu reoli cynefinoedd yn y tymor hir, i sicrhau Budd Net i Fioamrywiaeth.

4.6 Dylai datblygiadau gyfeirio at Asesiad Seilwaith Gwyrdd (ASG) diweddaraf Pen-y-bont ar Ogwr i bennu lleoliadau cynefinoedd presennol, yn ogystal â'r cyfleoedd ar gyfer diogelu a gwella SG a bioamrywiaeth o fewn a gerllaw safle'r datblygiad.



Ceffylau wrth Afon Ewenni

5.0 Gofynion Cynllunio

5.1 Mae'r adran hon o'r CCA yn darparu canllawiau manwl ar sut y dylai datblygiadau warchod, cadw a gwella bioamrywiaeth yn unol â pholisïau CDLIN a fabwysiadwyd. Mae'n dechrau drwy gyflwyno fframwaith DECCA a'r dull cam wrth gam, y mae PCC yn eu cymeradwyo'n gyfartal fel offerynnau ar gyfer diogelu a gwella bioamrywiaeth a gwella gwydnwch ecosystemau. Tra bod y dull cam wrth gam yn esbonio *sut* y dylid mynd i'r afael ag effeithiau bioamrywiaeth, mae fframwaith DECCA yn esbonio *beth* yw ecosystemau gwydn a'r mathau o fesurau sy'n eu gwella.

5.2 Mae'r adran hon hefyd yn nodi sut mae'r dull cam wrth gam yn cyd-fynd â'r broses RhD.

Fframwaith DECCA

5.3 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf LlCD ill dwy yn fframio gwella bioamrywiaeth yng nghyd-destun gwydnwch ecosystem. Mae Fframwaith DECCA yn nodi pum nodwedd o wydnwch ecosystemau, ac os cynllunnir mesurau i'w gwella, bydd iechyd ecosystemau yn gwella. Mae'r priodoleddau hyn yn cynnwys:

- **Amrywiaeth** – Cadw / creu / adfer ystod o gynefinoedd a rhywogaethau cynhenid, h.y., cynyddu cyfoeth planhigion fasgwlaidd ac anfasgwlaidd, creu cynefinoedd newydd ac adfer y rhai presennol, agor mosaigau a darparu tirweddau 'anniben' / clytwaith.
- **Ehangder** – Adfer cynefinoedd anffafriol (megis nodweddion a reolir yn ddwys neu rai yr amharwyd arnynt), ehangu maint coetiroedd a glaswelltiroedd presennol, darparu blychau nythu a lloches ychwanegol i rywogaethau, cynnal yr arwynebedd mwyaf posibl o gynefin presennol sy'n cefnogi bioamrywiaeth, yn enwedig cynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth 'Adran 7' (o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016).
- **Cyflwr** – Gwella ansawdd cynefin a'i reoli'n briodol, h.y., Gwella strwythur cynefin, rheoli RhEG, cael gwared ar nodweddion annymunol, rheoli erydiad, atal llygredd, rheoleiddio llifogydd a gwella iechyd y pridd.
- **Cysylltedd** - Cynnal / cryfhau / creu cysylltiadau rhwng cynefinoedd – h.y., cysylltu coetiroedd â gwrychoedd, lliniaru 'ymylon wedi'u tocio', cyflwyno

cynefinoedd a nodweddion dilyniannol, creu byfferau llystyfiant, adfer coridorau glannau afonydd, gosod toeau gwyrdd, adfer waliau cerrig.

- **Y Gallu i Addasu** - Dylunio ar gyfer newid hinsawdd, aflonyddwch a rheolaeth yn y dyfodol, h.y., Defnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur megis SuDS, creu coetiroedd ac adfer corstiroedd ac ystyried yr uchod i alluogi ecosystemau i adfer o bwysau amgylcheddol a gwrthsefyll tarfu yn y dyfodol.

Y Dull Cam wrth Gam

5.4 Mae PCC yn hyrwyddo'r dull cam wrth gam fel modd o ddangos y camau y mae'n rhaid eu cymryd tuag at sicrhau Budd Net i Fioamrywiaeth. Gall datblygwyr leihau'r niwed i gynefinoedd a rhywogaethau naturiol presennol drwy ddilyn y camau hyn, sy'n cynnwys:

- **CAM 1: Osgoi** – Osgoi colli unrhyw gynefinoedd neu rywogaethau presennol; neu ddarnio cysylltedd ecolegol.
- **CAM 2: Lleihau** – Lleihau unrhyw effaith anochel ar nodweddion ecolegol presennol.
- **CAM 3: Lliniaru** – Lliniaru unrhyw niwed neu golled anochel i gynefinoedd neu rywogaethau pwysig, neu ddarnio cysylltedd ecolegol.
- **CAM 4: Digolledu Safle (neu oddi ar y safle os na ellir sicrhau darpariaeth ar y safle)** – Gwrthbwyso effeithiau gweddilliol cynnig ar ôl i osgoi a lliniaru gael eu hystyried.
- **CAM 5: Rheolaeth Hirdymor** – Sicrhau bod trefniadau rheolaeth hirdymor yn cael eu rhoi ar waith.
- **CAM 6: Gwrthod Caniatâd Cynllunio** – Lle mae'r effaith andwyol ar fioamrywiaeth a gwydnwch ecosystem yn amlwg yn gwrthbwyso ystyriaethau materol eraill, dylid gwrthod y datblygiad.

5.5 Ar bob cam, dylai ymgeiswyr ystyried cyfleoedd i wella bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau, yn gymesur â maint a natur y cynnig.

CAM 1: Osgoi

5.6 Yn achos unrhyw ddatblygiad, rhaid i'r flaenoriaeth fod yn osgoi achosi niwed i nodweddion presennol neu ddarpar nodweddion o werth

bioamrywiaeth/ecolegol, a'u cadw. Mae egwyddor osgoi wedi'i hymgorffori ym Mholisi DNP6 y CDLlN, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau gynnal nodweddion bioamrywiaeth a rhwydweithiau ecolegol presennol ar y safle, lle bynnag y bo modd. Rhaid i ddatblygiadau ddangos bod pob ymdrech wedi'i gwneud i ddewis safle sy'n osgoi niwed i fioamrywiaeth a gweithrediad ecosystemau, gan gydnabod bod egwyddor datblygu eisoes wedi'i sefydlu ar safleoedd a ddyrannwyd.

5.7 Rhaid ystyried egwyddor osgoi (a chynnal) nodweddion biolegol presennol yn ystod camau cynnar proses ddylunio datblygiad. Er enghraifft, os yw safle cais cynllunio'n cynnwys coetir, dylid osgoi niweidio'r coetir hwn yn y lle cyntaf. Rhaid cynnal asesiadau proffesiynol o'r safle dan sylw, â'r nod o nodi unrhyw 'gynefinoedd blaenoriaethol', 'rhywogaethau blaenoriaethol', a dynodiadau statudol ac anstatudol. Dylid blaenoriaethu cynnal a/neu integreiddio cynefinoedd a nodweddion sy'n anoddaf i'w hail-greu, megis coetiroedd hynafol, oherwydd ni ellir digolledu am y difrod iddynt. Mae rhestr o rywogaethau a chynefinoedd blaenoriaethol sy'n gyffredin ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i'w gweld yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Pen-y-bont ar Ogwr: Asesiad a Diwygiad 2014 o Fioamrywiaeth a Gwasanaethau Ecosystemau. Dylai datblygwyr hefyd gyfeirio at y rhywogaethau a'r cynefinoedd blaenoriaethol a restrir yn Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i sicrhau bod pob rhywogaeth a chynefin o bwys yn cael eu hystyried. Drwy sefydlu pa rai o'r rhain (os oes rhai) sy'n bodoli ar y safle, gall y datblygwr ddechrau cymryd camau i'w diogelu rhag difrod o ganlyniad i'r datblygiad.

5.8 Lle bo effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd, bydd angen i'r ACLl fod yn fodlon bod unrhyw safleoedd amgen rhesymol (gan gynnwys opsiynau lleoli a dylunio amgen) a fyddai'n arwain at lai o niwed, dim niwed neu fudd wedi'u hystyried yn llawn.

5.9 Mae cynigion mewn safleoedd dynodedig statudol, fel mater o egwyddor, yn annerbyniol, ac felly, ni ellir eu cynnwys mewn chwiliadau o safleoedd a wneir gan ddatblygwyr. Mae'r egwyddor hon hefyd yn ymestyn i'r safleoedd hynny sy'n cynnwys rhywogaethau a chynefinoedd gwarchodedig sy'n anadferadwy

ac y mae'n rhaid eu diogelu. Safleoedd o'r fath yw calon rhwydweithiau ecolegol gwydn, ac mae'n rhaid diogelu, cynnal a gwella eu rôl a'r gwasanaethau ecosystemau y maent yn eu darparu, a'u diogelu rhag datblygu. Byddai'n hollol eithriadol gallu cyfiawnhau datblygiad mewn achosion o'r fath.

CAM 2: Lleihau

5.10 Ar ôl i'r holl opsiynau lleoli, dewis safle a dylunio ar gyfer osgoi niwed i fioamrywiaeth gael eu hystyried, dylid gwneud pob ymdrech i leihau niwed i fioamrywiaeth i'r eithaf. Ar y cam hwn, rhaid i ymgeiswyr ymgynghori â'r ACLl i sicrhau bod y mesurau a weithredir yn:

- Cynnal yr arwynebedd mwyaf posibl o gynefinoedd presennol sy'n cefnogi bioamrywiaeth ac ecosystemau gweithredol, yn enwedig cynefinoedd Adran 7 a rhywogaethau lle maent yn bresennol, drwy leihau maint y datblygiad a'i gyfeiriad priodol ar y safle, gan roi sylw dyladwy i'r potensial ar gyfer cynnal a rheoli parhaus yn y tymor hir ar yr ardaloedd a gedwir er budd bioamrywiaeth;
- Sicrhau bod cynefinoedd a gedwir yn parhau i fod wedi'u cysylltu'n dda â chynefinoedd cyfagos er mwyn darparu cyfleoedd i fywyd gwyllt symud drwy'r dirwedd. Mae hyn yn hanfodol i alluogi bywyd gwyllt i ffynnu.
- Cynnal nodweddion presennol, datblygu cynllun rheoli ar gyfer gofal yn y dyfodol, a chyflwyno byffrau priodol i sicrhau amddiffyniad, yn ystod y gwaith adeiladu ac yn y dyfodol; a
- Defnyddio atebion creadigol i leihau difrod a chynnal nodweddion bioamrywiaeth ac ecosystemau presennol.

CAM 3: Lliniaru/Adfer

5.11 Os bydd risg yn parhau i fioamrywiaeth bresennol ar ôl i'r mesurau i leihau'r niwed i fioamrywiaeth ac ecosystemau gael eu hystyried, rhaid i gynigion weithredu mesurau i liniaru unrhyw niwed a achosir i'r eithaf. Yn dilyn ystyried Camau 1 a 2, dylid ymgorffori mesurau lliniaru neu adfer effeithiol yn nyluniad yr argymhelliad. Rhaid i'r mesurau hyn gael eu dylunio i fynd i'r afael â'r effeithiau negyddol penodol drwy gyweirio unrhyw gynefinoedd sydd wedi'u

difrodi i gefnogi rhywogaethau y tarfwyd arnynt. Ceisir adferiad i wella bioamrywiaeth y tu hwnt i'w chyflwr gwreiddiol. Dylid ymgorffori mesurau lliniaru yn nyluniad cynnig y datblygiad, lle bynnag y bo modd, oherwydd bydd hynny'n fwy effeithiol fel arfer na ymateb ar gam diweddarach. O ran mesurau lliniaru, bydd yn angenrheidiol i ymgeiswyr geisio cyngor gan arbenigwyr perthnasol ac ymgynghorwyr statudol ac anstatudol i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Ym mhob achos, dylai mesurau lliniaru geisio adeiladu gwydnwch ecosystem o fewn y safle, a lle bo modd, yr ardal ehangach.

CAM 4: Digolledu ar y Safle (neu oddi ar y safle os na ellir sicrhau darpariaeth ar y safle)

5.12 Os nad yw mesurau lliniaru cyfatebol yn bosibl, yn enwedig o ran mesurau adfer, efallai y bydd angen ystyried mesurau digolledu ar y safle, i ddechrau. Dim ond pan fydd yr holl gamau uchod wedi'u hystyried, a lle nad yw addasiadau, safleoedd amgen, amodau neu rwymedigaethau yn ddigonol i sicrhau canlyniadau bioamrywiaeth ymhellach ar y safle/wrth ymyl y safle, y mae'n rhaid, fel dewis olaf, darparu mesurau digolledu oddi ar y safle i wneud iawn am ddifrod na ellir ei osgoi.

5.13 Mae mesurau digolledu yn disgrifio'r mesurau a gymerir i wrthbwyso effeithiau gweddilliol ar fioamrywiaeth (er gwaethaf lliniaru) drwy ddarparu gwelliannau bioamrywiaeth o werth cyfatebol. Rhaid darparu mesurau digolledu ar y safle yn gyntaf; os na ellir cyflawni hyn, gallai mesurau digolledu oddi ar y safle fod yn dderbyniol. Ni fydd mesurau digolledu oddi ar y safle yn dderbyniol oni bai eu bod yn cael eu cefnogi gan dystiolaeth sy'n dangos nad yw'n bosibl darparu mesurau digolledu ar y safle.

5.14 Dylai mesurau digolledu ganolbwyntio ar ddarparu mathau o nodweddion ecolegol sy'n debyg i'r rhai y maent yn eu disodli. Dylid cyflogi gweithiwr proffesiynol cymwys i gynnig cyngor ynghylch sut y dylid creu cynefinoedd newydd er mwyn sicrhau eu bod yn para'n hir ac yn addas i'r rhywogaeth y bwriedir ei chefnogi. Dylid hefyd ddarparu mesurau digolledu mor agos â phosibl at y nodwedd ecolegol a ddisodlwyd, a rhaid iddynt gael eu llywio gan dystiolaeth leol.

CAM 5: Rheolaeth hirdymor

5.15 Rhaid i bob cam o'r dull cam wrth gam gael ei gefnogi gan gynllun rheoli hirdymor, gan gynnwys ar gyfer unrhyw fesurau gwella. Dylai'r cynllun rheoli nodi'r rheolaeth uniongyrchol a hirdymor ar y safle, y mesurau monitro ar gyfer y dyfodol ar gyfer yr holl fesurau a gyflwynir fel rhan o'r cynllun, yn ogystal â nodi'r mecanweithiau ariannu sydd ar waith i gyflawni amcanion y cynllun rheoli. Rhaid i'r cynlluniau rheoli hefyd nodi sut y caiff Budd Net i Fioamrywiaeth ei gyflawni yn y cyfnod lleiaf posibl.

CAM 6: Gwrthod caniatâd cynllunio


5.16 Yn olaf, mewn achosion lle mae'r holl gamau uchod wedi'u hystyried a bod y niwed canlyniadol i fioamrywiaeth yn amlwg yn gorbwyso ystyriaethau perthnasol eraill sy'n gysylltiedig â'r cynllun, dylid gwrthod y cais cynllunio.

Y Dull Cam wrth Gam a'r Broses RhD

5.17 Mae'r adran hon o'r CCA yn cynnig amlinelliad cyffredinol o'r broses RhD a sut mae hyn yn cyd-fynd â'r gwahanol gamau yn y dull cam wrth gam.

5.18 Mae'r dull cam wrth gam yn egluro sut y dylid ymdrin â'r effeithiau ar fioamrywiaeth drwy gydol y broses gynllunio, ac mae'n berthnasol i bob datblygiad, beth bynnag fo ei fath a'i faint. Fodd bynnag, dylid nodi y dylai'r camau sydd eu hangen i gyflawni'r dull cam wrth gam fod yn gymesur â natur a maint y cynnig, a lefel effaith y cynnig ar fioamrywiaeth.

Ffigur 1. Y Dull Cam wrth Gam



5.19 Yn unol â hynny, mae'r CCA hyn yn esbonio sut y dylid mynd i'r afael â gofynion polisi CDLlN perthnasol ym mhob cam o'r broses, o ddewis safle a chasglu tystiolaeth hyd at ddylunio, penderfyniad a rheolaeth hirdymor, yn hytrach na'u trin fel asesiad ar wahân a wneir ar ddiwedd y broses. Mae'r adran hon hefyd yn cyfeirio at ganllawiau arfer gorau a geir yn y Safon Brydeinig ar gyfer Bioamrywiaeth (BS 42020:2013) 39 a chanllawiau ategol CIEEM megis ei bapur briffio ynghylch buddion net i fioamrywiaeth. Mae'r rhain yn darparu canllawiau manwl ar werthusiad ecolegol a'r wybodaeth y dylid ei chyflwyno fel rhan o gais cynllunio. Mae data arolygon a gwerthusiad o'r safle yn hanfodol i allu pennu effaith bosibl cynnig yn effeithiol, gan ddarparu tystiolaeth i lywio gweithredu'r dull cam wrth gam, ac i nodi'r

cyfleoedd i sicrhau gwelliannau i fioamrywiaeth sy'n sicrhau budd net i rwydweithiau ecolegol gwydn.

5.20 **Wrth gyflwyno cais cynllunio, disgwylir i ymgeiswyr gwblhau a chyflwyno'r holl arolygon ac adroddiadau ecolegol gofynnol.**

5.21 O ran dull yr Awdurdod o ymdrin â bioamrywiaeth a datblygiadau, dyma feysydd yr egwyddorion trosfwaol allweddol a nodir yn yr adran hon yw:

- Dylid ystyried bioamrywiaeth a rhwydweithiau ecolegol gwydn yng ngham cynharaf y broses RhD.
- Mae integreiddio mesurau bioamrywiaeth a rhwydweithiau ecolegol gwydn yn rhan annatod o greu lleoedd cynaliadwy.
- Mae cyflwyno gwybodaeth ecolegol amserol a phriodol yn hollbwysig. Yn benodol, os yw ecolegydd cymwys wedi nodi bod angen Asesiad Ecolegol Rhagarweiniol (AERh) ochr yn ochr ag unrhyw arolygon ychwanegol o rywogaethau a nodir yn yr AERh, gallai methu â chyflwyno hyn gyda'r cais arwain at wrthod y cais. Bydd yr ACLl yn cyfeirio at ganllawiau perthnasol CIEEM wrth benderfynu a yw'r manylion ecolegol a gyflwynwyd wedi'i chynnal gan ymgynghorydd ecolegol priodol gan ddilyn y methodolegau adrodd ecolegol priodol.
- Dylai pob ymgeisydd ystyried lle mae angen arolygon, asesiadau a chynlluniau dileu.
- Mae gwybodaeth o arolygon yn hanfodol i lywio'r gwaith o osgoi neu leihau i'r eithaf unrhyw effaith ar rywogaethau neu gynefinoedd gwarchodedig neu golli rhywogaethau a chynefinoedd o'r fath, a'r gwaith o drafod lliniaru priodol. Rhaid i ymgeiswyr ddangos sut mae'r cynnig wedi ymateb i'r wybodaeth ecolegol.
- Ni fydd y Cyngor yn ystyried cyd-drafod mesurau digolledu oni ddangoswyd yn eglur ac yn gadarn na ellir sicrhau osgoi a lliniaru.
- Ni fydd mesurau digolledu yn dderbyniol yn achos cynefinoedd na ellir eu hadfer (e.e. coetiroedd hynafol).
- Ym mhob datblygiad, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau Budd Net i Fioamrywiaeth sy'n gymesur â maint y datblygiad ac yn ystyried y

dystiolaeth a gyflwynwyd ynghylch bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau o fewn y safle a gerllaw.

- Lle bo angen cymeradwyaeth gan y Corff Cymeradwyo SuDS (CCS), fe'ch cynghorir yn gryf i ymgysylltu'n gynnar ac ar y cyd â phroses y CCS. Bydd hyn yn mwyafu'r cyfleoedd i sicrhau dyluniad a threfniant integredig aml-swyddogaethol ar gyfer holl elfennau SG o fewn safle, er mwyn bodloni polisïau cynllunio cenedlaethol a lleol a Safonau Draenio Cynaliadwy Cymru gan Lywodraeth Cymru, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddyluniad SuDS ystyried ansawdd dŵr a bioamrywiaeth. Gellir ymgynghori â thîm Hinsawdd a Natur (Cefn Gwlad) y Cyngor ynghylch ceisiadau cynllunio CCS. Os gwneir hynny, byddant yn cynnig cyngor ynghylch y wybodaeth sydd ei hangen gan ymgeiswyr i ddangos sut y bydd plannu planhigion newydd a chynnal a chadw cynigion SuDS yn cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau. Bydd angen hefyd am dystiolaeth o effaith yr argymhelliad ar gysylltedd presennol ecosystemau a chyfleoedd i ddarparu gwelliannau.

Cerrig Milltir Allweddol yn y Broses RhD

Cam Rheoli Datblygiad	Camau Perthnasol y Broses Cam wrth Gam
Cyn Cyflwyno'r Cais – Asesiad o;r Safle	**Osgoi, Nodi Cyfleoedd i Wella**

5.22 Rhaid ystyried y potensial i ddatblygiad effeithio ar fioamrywiaeth a nodweddion ecolegol yng ngham cyntaf unrhyw gynnig. Gallai methu â gwneud hynny arwain at oedi yn y broses gynllunio neu wrthod cais. Argymhellir yn gryf felly y dylid sicrhau dealltwriaeth eglur o nodweddion bioamrywiaeth, asedau SG a gwydnwch ecosystem safle cyn gynted â phosibl yn ystod unrhyw brosiect datblygu. Bydd hyn yn gwella ansawdd dyluniadau cychwynnol y safle, yn darparu gwybodaeth werthfawr i lywio trafodaethau cychwynnol â'r Awdurdod Lleol Cynllunio ac yn sicrhau bod

materion yn cael eu hystyried a'u datrys o'r dechrau cyntaf. Bydd hyn yn helpu i sicrhau'r canlyniad gorau ar gyfer bioamrywiaeth ac i osgoi costau ychwanegol neu oedi i ddatblygiad. Mae'r cyngor hwn yn berthnasol i bob datblygiad, beth bynnag fo'u math a'u maint.

5.23 Gall y camau canlynol ddarparu awgrym cynnar o'r effeithiau a'r cyfleoedd posibl a gyflwynir gan safle, a sicrhau bod cynigion yn rhoi sylw priodol i'r cyd-destun amgylcheddol a deddfwriaethol perthnasol. Mae Atodiad A yn cynnwys amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth perthnasol i gynorthwyo i asesu a deall y safle.

5.24 Yn unol â Pholisi CDLIN DNP6, dim ond lle y gellir dangos nad oes lleoliad arall boddhaol ar gyfer y datblygiad sy'n osgoi niwed i fioamrywiaeth a gweithrediad ecosystemau y caniateir cynigion datblygu sy'n arwain at effaith andwyol ar gysylltedd rhwydweithiau bioamrywiaeth a/neu sy'n achosi effaith andwyol sylweddol ar wydnwch cynefinoedd a rhywogaethau a warchodir. Os felly, bydd angen darparu tystiolaeth i ddangos bod asesiad o'r fath wedi'i wneud.

Cam Rheoli Datblygiad	Camau Perthnasol y Broses Cam wrth Gam
Cyn Cyflwyno'r Cais – Deall eich Safle	**Osgoi, Nodi Cyfleoedd i Wella**

5.25 Dylid dealltwriaeth sylfaenol o'r effeithiau a'r cyfleoedd a gyflwynir gan ddatblygiad fod wedi'i sicrhau yn y cam blaenorol. Dylai unrhyw gynnig a gyflwynir i'r Awdurdod Lleol felly gael ei lywio gan asesiad ecolegol sylfaenol o'r safle.

5.26 Mae ffynonellau data cychwynnol ar gyfer sefydlu nodweddion bioamrywiaeth a SG sy'n benodol i'r safle ac yn lleol yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- **ASG diweddaraf Pen-y-bont ar Ogwr:** Mae hwn yn cynnig asesiad manwl o'r llinell sylfaen SG bresennol ar gyfer pob is-ardal a nodwyd o fewn yr CDLIN. Mae hefyd yn rhestru cyfleoedd allweddol ar gyfer gwella SG a chynefinoedd ecolegol ym mhob is-ardal. Gellir ei ddefnyddio i nodi pa nodweddion SG allweddol sydd ar safle datblygiad ac yn ei ymyl.
- **Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru (CCBDDdC):** Dylid cynnal sgrinio i bennu presenoldeb rhywogaethau a chynefinoedd gwarchodedig yn seiliedig ar ddata a ddarperir gan CCBDDdC.
- **MapDataCymru**: amrywiaeth eang o ddata sydd ar gael i'r cyhoedd a allai gefnogi deall y llinell sylfaen SG / bioamrywiaeth. Mae MapDataCymru yn cynnwys setiau data sy'n cynnwys cynefinoedd blaenoriaethol, y rhestr o goetiroedd hynafol, rhwydweithiau cynefinoedd, ymysg eraill.
- **Setiau data CNC**: Mae setiau data CNC yn darparu gwybodaeth amgylcheddol ar gynefinoedd, rhywogaethau, safleoedd dynodedig, coetiroedd, dŵr, risg llifogydd ac adnoddau naturiol eraill, a gellir eu defnyddio i nodi cyfyngiadau a sensitifrwydd ecolegol.
- **Map Cynigion CDLIN Pen-y-bont ar Ogwr**: Mae'r map hwn yn cynnwys lleoliad yr holl ddynodiadau statudol a SoBCN.

5.27 Mae Atodiadau B a C yn darparu rhestr wirio arolwg o'r rhywogaethau a'r cynefinoedd sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan fathau penodol o ddatblygiad, yr arolygon sydd eu hangen, a'r tymhorau arolwg a argymhellir.

5.28 Rhaid nodi a gwarchod cynefinoedd naturiol yr ystyrir eu bod yn anadferadwy (h.y., coetiroedd hynafol, coed aeddfed/hynafol, corsydd, gwlypdiroedd, ac ati) fel rhan o ddyluniad y datblygiad. Er enghraifft, dylid ystyried presenoldeb y rhai a restrir yn Adran 7 Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

5.29 Bydd yr ACLl yn cydlynu ymgysylltu priodol gan Dîm Cefn Gwlad y Cyngor ar faterion bioamrywiaeth yn y cam cyn cyflwyno cais. Mae manteision sylweddol i geisio cyngor ecolegol proffesiynol *cyn* gwneud cais, gan gynnwys:

- Mae'n cynnig cyfle i ddeall sut y caiff polisïau a chanllawiau eu cymhwyso i'r datblygiad arfaethedig;

- Gall adnabod yn gynnar lle mae angen arolygon ac asesiadau o fioamrywiaeth;
- Bydd yn sicrhau bod amserlenni'r prosiect yn rhoi sylw priodol i natur dymhorol y gwaith arolygu ecolegol ac yn osgoi oedi hirfaith;
- Bydd yn nodi'r angen am fewnbwn arbenigol arall (h.y., ecolegwyr, penseiri tirwedd, peirianwyr draenio cynaliadwy);
- Gall osgoi tramgwyddo deddfwriaeth amgylcheddol o bosibl;
- Gall arwain at leihau'r amser a dreulir yn paratoi cynigion, yn nodi materion i'w datrys a chyfleoedd i'w harchwilio ar gyfer diogelu a gwella bioamrywiaeth, a'u hintegreiddio i ddyluniadau SG ehangach yn y cyfnodau cynharaf posibl;
- Gallai ddangos bod cynnig yn gwbl annerbyniol, gan arbed yr amser a'r costau sy'n gysylltiedig â llunio cais ffurfiol;
- Mae'n darparu cyfleoedd i nodi atebion a rennir ar gyfer SuDS a bioamrywiaeth;
- Bydd yn egluro'r holl wybodaeth a'r lluniadau angenrheidiol sydd eu hangen i alluogi'r cais i gael ei gofrestru a'i ddilysu; a
- Bydd yn sicrhau bod yr holl arolygon ecolegol sy'n ofynnol i gefnogi cais cynllunio yn ddilys ar adeg eu cyflwyno. **Ystyrir ar y cyfan bod arolygon ecolegol ddilys am gyfnod o ddwy flynedd, ac ar ôl y cyfnod hwnnw bydd angen arolygon diweddaredig.**

5.30 Bydd y mathau o effeithiau ar fioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau o ganlyniad i'r datblygiad yn amrywio o ran graddfa a natur. Er enghraifft, gallai datblygiad arwain at:

- Golledion uniongyrchol o ran cynefinoedd neu rywogaethau pwysig ar y safle;
- Darnio neu golli cysylltedd rhwng cynefinoedd neu boblogaethau rhywogaethau naill ai ar y safle, neu gysylltedd oddi ar y safle â'r rhwydwaith ecolegol ehangach (megis drwy nodweddion naturiol a lled-naturiol, mannau gwyrdd, afonydd, llynnoedd, caeau, parciau, pyllau, gwrychoedd, coed stryd, ymylon ffyrdd, ac ati);

- Newid cyfundrefnau y mae ecosystem yn dibynnu arnynt (er enghraifft, systemau hydrolegol);
- Llygredd aer, sŵn a golau; a
- Tarfu yn sgil gweithgareddau hamdden a/neu ysglyfaethu gan anifeiliaid anwes.

5.31 Mae deall y materion penodol sy'n ymwneud â'r math o ddatblygiad a'i leoliad felly yn hanfodol.

5.32 Bydd ymgysylltu'n gynnar ag ecolegydd/ymgynghorydd cymwysedig yn nodi'r angen am Asesiad Ecolegol Cynllunio (AEC) a'i gynnwys posibl. Dylai Astudiaeth o'r Effaith ar yr Amgylchedd (AEA) yn sgil datblygiad arfaethedig nodi unrhyw nodweddion bioamrywiaeth y gallai effeithio arnynt ac unrhyw arolygon ychwanegol y bydd angen eu cynnal. Rhaid i geisiadau sy'n debygol o effeithio ar unrhyw safleoedd dynodedig neu gynefinoedd neu rywogaethau blaenoriaethol gynnwys arolwg ac asesiad ar gyfer y cynefinoedd a'r rhywogaethau perthnasol. Efallai y bydd hefyd yn angenrheidiol cynnal arolwg ecolegol hyd yn oed yn os nad oed unrhyw safleoedd dynodedig a/neu rywogaethau a chynefinoedd blaenoriaethol wedi'u nodi. Dylai gofynion arolwg fod yn gymesur â math a maint y datblygiad ac yn seiliedig ar y potensial i'r datblygiad effeithio ar unrhyw nodwedd ecolegol sensitif, gan gynnwys cynefinoedd blaenoriaethol, rhywogaethau, gwasanaethau ecosystemau a chysylltedd ecolegol, er enghraifft. Mae'r arolwg cychwynnol ac unrhyw arolygon manwl ychwanegol yn rhan o'r AERh, yn unol â'r canllawiau ar gyfer adroddiadau ecolegol a nodir yn Safon Brydeinig 42020 ac yng nghanllawiau CIEEM.

5.33 Mae rhestr wirio arolwg Atodiad B yn cynorthwyo i nodi ceisiadau y bydd angen gwaith arolwg arnynt, ac yn manylu ar y wybodaeth y bydd angen ei hystyried yn ystod y cam dylunio a'i chyflwyno gyda'r cais cynllunio.

5.34 Dylai ymgeiswyr hefyd fod yn ymwybodol y gellir gofyn am wybodaeth ychwanegol. Gall yr ACLl gyfarwyddo'r ymgeisydd i ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol a ystyrir yn rhesymol angenrheidiol at ddiben penderfynu ar y cais cynllunio.

5.35 Bydd angen i ymgeiswyr sy'n ofynnol i gyflwyno gwybodaeth ecolegol gyflogi ymgynghorydd ecolegol cymwysedig. Dylai'r arbenigwyr hyn gydweithio'n agos â'r cynllunwyr, y penseiri a'r peirianwyr sy'n gyfrifol am gyflawni'r cynnig i sicrhau bod ystyriaethau bioamrywiaeth yn cael eu hintegreiddio'n llawn o fewn dyluniad y cynnig o'r dechrau. Bydd defnyddio'r dull hwn yn helpu i sicrhau bod agweddau tirwedd a bioamrywiaeth y datblygiad yn cael eu hystyried yn llawn a'u hintegreiddio'n llwyddiannus â phob agwedd arall ar y datblygiad.

5.36 Mae'r ACLl yn cefnogi'r dull arfer gorau o rannu gwybodaeth ecolegol â CCBDDdC. Mae'r dull hwn yn gwella ansawdd y wybodaeth ar gyfer ceisiadau yn y dyfodol. Cynghorir ymgeiswyr felly yn gryf i drafod â'u hymgynghorydd ecolegol ynglŷn â pha un ai a ddylid cynnwys y cymal isod yn eu contractau:

> 'Mae ymgeiswyr neu eu hymgynghorwyr yn cytuno i rannu'n rhagweithiol unrhyw gofnodion biolegol a wneir yn ystod proses y gwerthuso ecolegol â Chanolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru (CCBDDdC), ar yr adeg pan y cyflwynir yr adroddiad i'r Awdurdod Lleol. Mae'r Cyngor yn ystyried bod pob rhan o adroddiadau ecolegol a gyflwynir iddo fel rhan o'r broses gynllunio, nad ydynt wedi'u marcio'n benodol fel rhai sensitif, yn rhan o'r parth cyhoeddus.'

5.37 O fewn manylebau arolygon ac asesiadau, rhaid i ymgeiswyr hefyd gynnwys manylion camau i nodi presenoldeb unrhyw blanhigion sy'n RhEG a restrir yn Atodiad 9 Rhan II adran 14(2) Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd).

5.38 Mewn rhai achosion, efallai na fydd tebygolrwydd rhesymol y bydd datblygiad yn effeithio ar nodwedd bywyd gwyllt, felly ni fydd angen gwaith arolygu. Os felly, bydd angen i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth ddigonol i ddangos hyn.

5.39 Mae hefyd yn bwysig datblygu dealltwriaeth o rôl safle'r datblygiad o ran cefnogi gwydnwch ecosystemau drwy gymhwyso fframwaith DECCA. Bydd hyn hefyd yn cynnig awgrym o fesurau posibl i wella gwydnwch ecosystem o fewn terfyn y llinell goch ar y safle.

5.40 Dylid nodi y gall effeithiau ar fioamrywiaeth ymestyn y tu hwnt i ffiniau'r safle mewn ffyrdd annisgwyl, er enghraifft, trwy lygredd sŵn neu olau, llif dŵr wyneb, neu ymddygiad ysglyfaethus anifeiliaid anwes. Gall datblygiadau cymharol fychan hefyd achosi effeithiau mwy ar y dirwedd ehangach, er enghraifft, gallai tynnu gwrych neu linell o goed dorri llwybr bwydo neu gymudo ystlumod, gan effeithio'n negyddol ar gytref bridio sy'n eithaf pell o safle'r cais cynllunio.

5.41 Gall datblygiad hefyd effeithio'n andwyol ar fioamrywiaeth naill ai yn ystod y cyfnod adeiladu neu yn ystod y cyfnod gweithredu (ar ôl adeiladu), neu yn ystod y ddau, ac mae angen i'r gwaith arolygu ystyried yr effeithiau posibl hyn yn llawn.

5.42 Efallai y bydd angen arolygon, asesiadau neu drwyddedau ychwanegol yn gyfreithiol. Wrth gynnal arolygon ac asesiadau ar gyfer cais cynllunio, dylai ecolegydd cymwysedig yr ymgeisydd, Dŵr Cymru (CNC), neu ecolegydd y Cyngor gynghori a oes angen y canlynol:

1. **Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd (AEA)** - os byddai'r cynnig yn sbarduno'r angen am AEA, efallai y byddai'n syniad da cyflwyno 'barn sgrinio'.
2. **Trwydded Rhywogaethau a Warchodir CNC** – os byddai'r cynnig yn arwain at yr angen i gyflwyno cais i CNC am unrhyw un o'r trwyddedau isod. Mae'r broses o ystyried a dyroddi trwyddedau ar wahân i'r broses o wneud cais am ganiatâd cynllunio. Fodd bynnag, rhaid i'r ACLl ystyried y ddeddfwriaeth drwy gydol y broses RhD.
    - **Trwydded Datblygu Rhywogaethau a Warchodir Ewropeaidd (SGE)**: Mae CNC yn dyroddi trwyddedau'n ymwneud â Rhywogaethau a Warchodir ar gyfer unrhyw ddatblygiad a fyddai'n effeithio ar rywogaeth a warchodir o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017; neu
    - **Trwydded Rhywogaethau a Warchodir y DU**: Mae CNC yn dyroddi trwyddedau datblygu mewn perthynas â rhywogaethau a warchodir dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, er enghraifft, ymlusgiaid (pob rhywogaeth yn y DU) a llygod y dŵr.

Mae CNC hefyd yn gyfrifol am ddyroddi trwyddedau o dan Ddeddf Diogelu Moch Daear 1992, os bydd yn angenrheidiol tarfu ar foch daear a/neu eu deyerydd yn ystod datblygiad.

3. **Arolwg Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol (DLIC):** Mae arolygon DLIC yn aml yn sicrhau lefel o fanylder sy'n fwy gwerthfawr i gefnogi ymagwedd ecosystemau na arolygon cynefinoedd eang. Mae hefyd yn bwysig i unrhyw arolygon o gynefinoedd gasglu gwybodaeth ddigonol am eu sefyllfa, eu strwythur, amrywiaeth planhigion fasgwlaidd a'u cysylltedd â'r amgylchoedd.
4. **Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd:** Fel arfer, mae angen ARhC lle gallai cynnig datblygu effeithio ar safle ecolegol dynodedig Ewropeaidd, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â phrosiectau neu gynlluniau eraill, fel y nodir yn Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Mae Polisi SP17 y CDLlN hefyd yn nodi bod yn rhaid i gynigion sy'n debygol o achosi effeithiau andwyol uniongyrchol neu anuniongyrchol ar SAC, ACA neu safleoedd Ramsar, neu sy'n effeithio ar gynefin Brithell y Gors (glöyn byw) o fewn 2km i SAC Glaswelltiroedd Cefn Cribwr, fod yn fod yn destun ARhC. Mewn achosion o'r fath, disgwylir i'r ymgeisydd ddarparu ARhC 'cysgodol' sy'n darparu'r data a'r dystiolaeth i alluogi'r ACLl i gynnal ARhC llawn. Mae methu â darparu tystiolaeth/data digonol fel rhan o'r broses hon yn debygol o oedi'r broses ymgeisio. Wrth gynnal ARhC cysgodol, dylai ymgeiswyr gyfeirio at y cynllun rheoli priodol sy'n ymwneud â'r safle dynodedig i nodi ei nodweddion cymwys. Cyfeiriwch hefyd at Ganllawiau ARhC Llywodraeth Cymru (2025).

5.43 Dylai ymgeiswyr ystyried y fframwaith polisi ar gyfer yr RhANG yng Nghymru i gael awgrym ynghylch anawsterau a chyfleoedd posibl. Mae'r fframwaith yn cynnwys:

- Adroddiad ASAN CNC
- Datganiadau Ardal CNC
- Adran 7 Rhestr Cynefinoedd a Rhywogaethau yng Nghymru (Deddf Amgylchedd 2016);
- DataMapCymru
- Adolygiad SoBCN Pen-y-bont ar Ogwr (2011)

- Arolwg SoBCN Pen-y-bont ar Ogwr (Adolygiad) (2020)
- CGBLl Pen-y-bont ar Ogwr
- Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol (CGANLl) Pen-y-bont ar Ogwr
- Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth Pen-y-bont ar Ogwr
- Cynllun Llesiant Cwm Taf Morgannwg

5.44 **Sylwer**: Dylid defnyddio Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Leol Pen-y-bont ar Ogwr i ddeall argaeledd gwasanaethau ecosystemau yn agos at eu safle arfaethedig. Mae'r 'Ddogfen Dechnegol' yn darparu rhestr o gynefinoedd a'u gwasanaethau ecosystemau yn Nhabl 2, a byddai hynny'n ategu ymhellach y ddealltwriaeth o ecosystemau a gwasanaethau ecosystemau safle. Bydd hyn yn galluogi datblygwyr i sicrhau eu bod yn cyfrannu'n weithredol at reoleiddio'r gwasanaethau hyn ac nad ydynt yn achosi effeithiau niweidiol ar adnoddau naturiol.

Cam Rheoli Datblygiad	Camau Perthnasol y Broses Cam wrth Gam
Cyn Cyflwyno'r Cais – Dylunio sy'n cael ei lywio dystiolaeth	**Osgoi, Lleihau, Lliniaru, Digolledu (Ar y Safle, ac yna Oddi Ar y Safle, Dim Ond os Bydd Hynny'n Ofynnol),**

5.45 Y cam cyn cyflwyno'r cais yw'r cam mwyaf priodol i ystyried sut y bydd yr argymhelliad yn mynd i'r afael â'r effeithiau a nodwyd yn yr AERh ac unrhyw arolygon ychwanegol o rywogaethau a wneir.

5.46 Dylai'r ymgeisydd geisio sefydlu yn y cam cyn cyflwyno'r cais sut y bydd yr argymhelliad yn cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth, cysylltedd ecolegol a gwydnwch.

5.47 Mae'n bwysig sicrhau bod canfyddiadau unrhyw arolygon ecolegol yn cael eu hystyried yn briodol yn y cam dylunio, er mwyn sicrhau bod cyfyngiadau o ran

bioamrywiaeth yn cael eu hintegreiddio'n llawn i ddyluniadau cynnar cynigion fel rhan o'r ymagwedd ehangach at greu lleoedd.

5.48 Yn achos ceisiadau mawr, dylid ymgysylltu â thîm dylunio cyn gynted â phosibl, a dylai hynny gynnwys ecolegydd cymwys. Dylai'r tîm hwn feddu ar ddealltwriaeth gadarn o waith arolygon ecolegol a chynhyrchu datrysiadau dylunio sy'n ymateb i'r cyfleoedd a nodir i sicrhau gwelliannau o ran bioamrywiaeth ac integreiddio gwydnwch ecosystem yn y datblygiad, gan ystyried 5 egwyddor gwydnwch / fframwaith DECCA. Mae Papur Briffio CIEEM ynghylch Budd Net i Fioamrywiaeth yn cynnig dull symlach o ystyried DECCA er mwyn sicrhau bod gweithrediad ecosystemau'n cael ei ddiogelu a'u gwydnwch yn cael ei gynnal, tra'n cyfrannu at sicrhau darpariaeth SG, ac yn y pen draw, Budd Net i Fioamrywiaeth. Mae egwyddorion arfer gorau o ran creu lleoedd a Chynllunio Integredig yn mynnu na chaiff y materion hyn eu hychwanegu'n ddiweddarach at ddyluniadau a chynlluniau datblygu sefydledig/safonol. Argymhellir yn gryf bod timau dylunio yn darparu 'Cynllun Cyfyngiadau a Chyfleoedd Ecolegol' (CCChE), fel y nodir yn y Safon Brydeinig. Mae'r CCChE yn ffordd effeithlon ac effeithiol o gyfleu'r prif anawsterau a godir yn yr adroddiadau ecolegol technegol manwl. Gall fod yn gynllun goleuadau traffig syml sy'n cyfleu lleoliad anawsterau ac ymatebion dylunio. Lle bo'n briodol, gall gyfeirio at adrannau manwl o adroddiadau arolygon. Os caiff ei baratoi yn gynnar, mae'r CCChE yn offeryn defnyddiol i lywio trafodaethau cyn cyflwyno'r cais a dyluniadau diwygiedig yn ystod camau diweddarach proses ddylunio a chynllunio'r datblygiad. Mae'n cynnig ffordd ddefnyddiol o ddangos sut mae'r broses ddylunio wedi ystyried yr asedau naturiol mwyaf gwerthfawr, a bod datblygiadau'n arwain at Fudd Net i Fioamrywiaeth.

5.49 Mae Polisi DNP5 y CDLlN yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau sydd wedi'u lleoli naill ai o fewn neu ger GNLl , SoBCN neu SDBRh fod yn gydnaws â chadwraeth natur neu ddiddordeb gwyddonol yr ardal, gan hyrwyddo eu rôl addysgol. I gyflawni hyn, dylai cynigion:

- Gynnal a gwarchod y nodweddion y mae'r safle wedi'i ddynodi ar eu cyfer;
- Cynnal cysylltedd ecolegol neu ddaearegol;

- Ymgorffori byfferau priodol a sicrhau lleoliad sensitif i'r datblygiad, y mynediad, y goleuadau a'r draeniad;
- Osgoi tarfu, darnio, llygredd a newidiadau i systemau hydrolegol;
- Ymgorffori mesurau gwella cynefin sy'n ategu diddordeb gwyddonol y safle;
- Darparu cyfleoedd priodol ar gyfer addysg, dehongliadau a gwerthfawrogiad o'i gadwraeth natur neu ei ddiddordeb gwyddonol;
- Lle bo'n berthnasol, dangos sut y bydd y gwaith adeiladu a'r rheolaeth hirdymor yn osgoi effeithiau andwyol ar y safle a'i nodweddion o ddiddordeb, ac yn hyrwyddo gwelliannau pellach, gan gynnwys cyflwr y safle.

5.50 Dylai cynigion datblygu sy'n achosi effaith andwyol ar gysylltedd y rhwydwaith ecolegol sicrhau bod elfen gysylltiedig weithredol yn cael ei chynnal a'i gwella i gefnogi bioamrywiaeth a rhwydweithiau ecolegol gwydn. I gael arweiniad ynghylch sut i gyflawni hyn, dylai ymgeiswyr gyfeirio at y Canllaw i Ymarferwyr gan CNC ynghylch Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn.

5.51 Dylid diogelu a chefnogi nodweddion arbennig SoDdGA a SoBCN fel rhan o ddatblygiad. Dynodir SoDdGA oherwydd nodweddion penodol (h.y., mathau o gynefinoedd), y gellir eu hadnabod ar gyfer safleoedd penodol drwy gofnodion CNC. Er mwyn gallu nodi nodweddion o fewn SoBCN unigol, dylai ymgeiswyr gyfeirio at Adolygiad SoBCN Pen-y-bont ar Ogwr (2011).

5.52 Mae'r CDLlN yn hyrwyddo lleoli, ac mae creu lleoedd sy'n cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth yn rhan o ddull lleoli ehangach y cynllun. Bydd yr ACLl felly yn disgwyl i gynigion ddangos sut mae dyluniadau yn:

- Ymateb i'r holl dystiolaeth sydd ar gael sy'n ymwneud â nodweddion bioamrywiaeth a SG a nodwyd; a
- Sut gwnaethant ddatblygu gan ddilyn y dull cam wrth gam.

5.53 Os nad oes unrhyw faterion bioamrywiaeth wedi'u nodi, dylai'r DDM gynnwys datganiad eglur ynghylch y camau a gymerwyd i sefydlu bioamrywiaeth a rhwydweithiau ecolegol gwydn o'r safle, a esboniad ynghylch pam nad ystyrir bod unrhyw gamau pellach yn angenrheidiol. Er enghraifft, dylai'r ymgeisydd

ddarparu tystiolaeth i gadarnhau cwblhau chwiliad bwrdd gwaith CCBDDdC drwy ddarparu rhif cyfeirnod yr achos perthnasol neu ohebiaeth sy'n cynnig tystiolaeth i gadarnhau ymgynghori naill ai ag ecolegwyr cymwys yn breifat neu ag ecolegydd y Cyngor.

5.54 Os nad yw osgoi'n ymarferol, dylai'r dyluniad anelu at liniaru unrhyw effeithiau niweidiol. Er enghraifft, os cynllunnir y datblygiad i gynnwys pwll presennol, byddai lliniaru penodol ar gyfer y lle a ddatblygir yn cael ei sicrhau drwy sicrhau bod y pwll wedi'i gysylltu'n ffisegol â chynefin tir a heb ei ynysu gan y datblygiad.

5.55 Dylid rhoi sylw arbennig i warchod a gwella SoDdGA fel rhan o'r dull cam wrth gam, er enghraifft, drwy:

- Ddiogelu mannau addasrwydd cynefinoedd pwysig, cysylltu'r prif gynefinoedd o fewn rhwydweithiau ecolegol a chyflwyno byfferau, coridorau a cherrig camu;
- Diogelu cynefinoedd gwerthfawr iawn sydd heb eu diogelu neu gynefinoedd sydd â hanes ecolegol hir o ddulliau rheoli tir nad ydynt yn ddwys; ac
- Osgoi darnio cysylltedd ecolegol i atal tarfu ar weithgarwch rhywogaethau a'u statws cadwraeth ffafriol.

5.56 Bydd trafod rheolaidd â'r ACLl drwy gydol y broses ddylunio yn sicrhau bod addasiadau i'r cynigion yn rhoi ystyriaeth briodol i wybodaeth am fioamrywiaeth wrth iddi ddod i'r amlwg drwy gydol y broses ddatblygu.

5.57 Argymhellir hefyd drafodaeth cyn cyn cyflwyno cais ag ymgyngoreion statudol megis CNC, ynghyd ag ymgyngoreion anstatudol, lle bo'n briodol. Mae gan CNC swyddogaeth reoleiddio amgylcheddol ac mae gwybodaeth ar wefan CNC yn cynnig manylion am gydsyniadau, trwyddedau a chaniatâd y gallai fod yn ofynnol i ymgeiswyr eu sicrhau.

5.58 Os bydd angen digolledu yn sgil colli cynefin, dylid darparu mesurau digolledu ar y safle sydd o werth ecolegol cyfatebol neu fwy. Ni ddylid ystyried darpariaeth oddi ar y safle oni bydd yn amhosibl darparu hynny ar y safle, ac yn ddelfrydol, dylai ddigwydd gerllaw safle'r datblygiad.

5.59 **CCS Cyn Cyflwyno Cais:** Pan wneir cyflwyniad cyn cyflwyno'r cais o dan y broses CCS, bydd yn ddoeth gwneud hynny ar y cyd â'r broses cyn-gynllunio er mwyn i bob cyfle i sicrhau datrysiadau SuDS bioamrywiol gael ei archwilio'n llawn.



Cam Rheoli Datblygiad	Camau Perthnasol y Broses Cam wrth Gam
Cais – Cyflwyno Arolygon ac Adroddiadau	**Dangos bod y Dull Cam wrth Gam cyfan wedi'i weithredu**

5.60 Erbyn i gais cynllunio fod yn barod i'w gyflwyno, dylid bod wedi ystyried nodweddion ecolegol y safle yn llawn, a dilyn camau'r dull cam wrth gam. Dylai unrhyw effeithiau a nodwyd fod wedi cael eu hosgoi, eu lleihau neu eu lliniaru wrth ddylunio'r cynnig a gyflwynwyd, a'u cyfiawnhau'n llawn yn y cais. Fel rhan o'r cais cynllunio, rhaid i'r ymgeisydd ddangos sut y dilynwyd holl gamau'r dull cam wrth gam. Dylid dangos hefyd sut y cydymffurfiwyd â'r meini prawf polisi perthnasol drwy dystiolaeth ategol. Dylai'r Datganiad Seilwaith Gwyrdd (gellir canfod templed y datganiad yn Atodiad B CCA Seilwaith Gwyrdd drafft Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr) a gyflwynir gyda'r cais fanylu ar sut y dilynwyd y dull cam wrth gam a sut y sicrhawyd Budd Net i Fioamrywiaeth.

5.61 Dylid cyflwyno unrhyw arolygon neu asesiadau ecolegol perthnasol sy'n ofynnol gyda'r cais. Dylai'r ecolegydd a gyflogir gan yr ymgeisydd neu eu hasiant weithio bob amser yn unol â'r canllawiau a gydnabyddir ar gyfer arolygon a mesurau lliniaru, a safonau'r diwydiant perthnasol, a chynnig cyfiawnhad sy'n seiliedig ar dystiolaeth dros unrhyw enghraifft o beidio â chydymffurfio â'r canllawiau hyn.

5.62 Pan gyflwynir ceisiadau heb wybodaeth ecolegol, gellir eu dilysu ond ni ellir eu penderfynu nes bydd unrhyw waith ecolegol angenrheidiol wedi'i wneud, ei gyflwyno a'i gymeradwyo. Pan gyflwynir arolygon ac adroddiadau sy'n argymell y dylid cynnal rhagor o waith arolygu, ac ni chyflwynir hynny, gall yr Awdurdod Lleol wrthod y cais.

Cam Rheoli Datblygiad	Camau Perthnasol y Broses Cam wrth Gam
Cais – Ystyried Cynigion	**Asesiad ynghylch Osgoi, Lleihau, Lliniaru, Digolledu, Gwella, Rheoli, Monitro**

5.63 Bydd y wybodaeth ecolegol a gyflwynir i gefnogi cais yn cael ei hasesu i sicrhau ei bod:

- Yn gyfredol (ystyrir ar y cyfan fod arolygon ecolegol a gyflwynir i gefnogi ceisiadau cynllunio yn ddilys am gyfnod o hyd at 2 flynedd, ac ar ôl hynny, efallai byddai angen arolygon diweddaredig);
- Yn dangos yn eglur beth yw llinell sylfaen bresennol bioamrywiaeth ac ecoleg safle'r datblygiad, ei werth, ei gysylltedd â'r rhwydwaith ecolegol ehangach, sut y bydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio ar y rhain, a sut y mae pob effaith negyddol anochel wedi'i liniaru a/neu sut y digolledwyd yn sgil hynny. Dylid darparu cyfiawnhad cadarn lle bernir nad yw unrhyw gam o fewn y dull cam wrth gam yn gyraeddadwy. Rhaid i'r holl fesurau osgoi, lliniaru, digolledu a gwella arfaethedig fod wedi'u diffinio'n eglur;
- Yn cynnig cyfiawnhad llawn ac eglur dros weithredu'r dull cam wrth gam, ac yn benodol bod unrhyw mesurau digolledu a gynigir yn weddilliol, ar ôl ystyried yn llawn yn gyntaf osgoi, lleihau a lliniaru'r effeithiau negyddol a nodwyd; ac
- Yn disgrifio sut y bydd y gwelliannau bioamrywiaeth arfaethedig yn sicrhau rhwydweithiau ecolegol gwydn yn unol â'r 5 priodoledd gwydnwch (Gweler fframwaith DECCA uchod).

5.64 Er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n seiliedig ar wybodaeth ddigonol yn unol â BS42020, bydd yr ACLl yn ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd gan ddefnyddio rhestr wirio AEE CIEEM. Mae'r rhestr wirio yn cyfeirio at yr holl ganllawiau perthnasol gan CIEEM a CNC sy'n ymwneud â chynnal arolygon.

5.65 Bydd yr ACLl hefyd yn asesu'r cais a'r wybodaeth a gyflwynwyd i sefydlu:

- Cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth a'r polisi perthnasol gan gyfeirio at y CCA hyn;
- Rhaid cynnal a gwella gwydnwch ecosystem presennol y safle y mae PCC yn ei ofyn ar ôl y datblygiad;
- Priodoldeb y mesurau lliniaru a chydnabod a gynigiwyd;
- Priodoldeb y mesurau gwella a gynigiwyd;
- Integreiddio mesurau bioamrywiaeth fel rhan o greu lleoedd da a darparu SG o ansawdd;
- Yr angen am rwymedigaethau cynllunio i sicrhau mesurau ac ymyriadau bioamrywiaeth;
- Yr angen i bennu amodau i sicrhau bod y datblygiad yn dderbyniol; a'r
- Angen i atodi nodiadau cynghori wrth y caniatâd.

5.65 Cymeradwyaeth SuDS: Ystyrir manylion unrhyw gymeradwyaeth CCS gyfochrog.



Cam Rheoli Datblygiad	Camau Perthnasol y Broses Cam wrth Gam
Cais – Penderfyniad	**Asesu, Osgoi, Dylunio, Lliniaru, Digolledu, Gwella, Rheoli, Monitro**

5.67 Dylid ymgorffori'r holl fesurau bioamrywiaeth cytunedig yn nyluniad y datblygiad cyn gynted â phosibl, a'u dangos ar yr holl gynlluniau a gyflwynir i'w cymeradwyo. Bydd y caniatâd yn amodol ar gymeradwyaeth yn unol â'r cynlluniau cymeradwy.

5.68 Mae LlC wedi egluro, lle nad yw gwella bioamrywiaeth yn cael ei gynnig fel rhan o gais, y rhoddir pwysau sylweddol i'r diffyg hwnnw, ac oni bydd ystyriaethau perthnasol arwyddocaol eraill yn nodi fel arall, bydd yn rhaid gwrthod caniatâd. Mae'r Cyngor yn ystyried bod y diffyg tystiolaeth ecolegol o effaith negyddol ar fioamrywiaeth neu wydnwch ecosystem sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r datblygiad yn ystyriaeth berthnasol arwyddocaol yn hyn o beth.

5.69 Os yw'r Cyngor yn casglu ei bod yn rhesymol mynnu mesurau lliniaru, digolledu, neu fesurau gwella, a na ellir integreiddio hyn yn nyluniad y datblygiad na'i greu ar y safle, gall geisio serch hynny sicrhau'r mesurau hyn oddi ar y safle.

Mesurau Gwella

5.70 Yn unol â PCC a dyletswydd Adran 6, bydd yr Awdurdod Lleol yn ceisio sicrhau bod datblygiad yn darparu Budd Net i Fioamrywiaeth. Bydd yr ACLl felly yn mynd ati gyda'r ymgeisydd i archwilio pa gyfleoedd sy'n bodoli o fewn neu oddi allan i'r datblygiad i ddarparu gwelliannau i fioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau, gan ystyried fframwaith RhANG ac unrhyw arolygon ecolegol cyfredol a gyflwynwyd gyda'r cais. Disgwylir i gynigion ar gyfer gwelliannau i fioamrywiaeth fod yn rhan o'r cais. Os yw'r ACLl yn fodlon y gellir cyflawni'r gwelliannau arfaethedig, dylid eu cynnwys mewn Cynllun Gwella Bioamrywiaeth. Gellid pennu amodau yn gysylltiedig â'r cynllun

hwnnw, ynghyd â'r holl fanylion perthnasol, gan gynnwys cynnal a rheoli mesurau o'r fath yn yr hirdymor, fel rhan o'r caniatâd cynllunio.

5.71 Ni fydd cyflwyno mesurau gwella unigol bychan megis gosod blychau adar, plannu coed neu greu llecynnau blodau gwyllt, er enghraifft, o reidrwydd yn sicrhau bod cynllun sy'n cyfrannu'n wael at amrywiaeth biolegol yn dderbyniol os yw'n effeithio'n andwyol ar gynefinoedd a/neu rywogaethau pwysig .

Cytundebau ac Amodau S106

5.72 Gall yr ACLl argymell cymeradwyaeth yn amodol ar amodau a/neu rwymedigaethau cynllunio a sicrheir drwy gytundeb adran 106. Lle gellid defnyddio amod i sicrhau'r un canlyniad â chytundeb cyfreithiol, fe'i defnyddir yn lle rhwymedigaeth gynllunio yn unol â'r profion a nodir yng Nghylchlythyr 13/97 a'r Cylchlythyr Amodau (WGC 016/2014). Defnyddir amodau fel arfer i gyfyngu ar ddatblygiad, rheoli amserlen ar gyfer gweithredu'r gwaith a/neu fynnu gweithredoedd ar y safle i sicrhau bod y datblygiad yn dderbyniol. Mewn cyferbyniad, defnyddir rhwymedigaethau cynllunio fel arfer i sicrhau cyfraniadau ariannol, gofynion yn ymwneud â rheolaeth yn y dyfodol a/neu drosglwyddo mannau agored cyhoeddus a gwaith oddi ar y safle, ac i rwymo tir y datblygiad. Maent fel arfer yn cael eu sicrhau drwy gytundebau cyfreithiol s106 rhwng awdurdod cynllunio a pherchennog tir/datblygwr, neu ymrwymiadau a gynigir yn unochrog gan berchennog tir/datblygwr, sy'n sicrhau y cydymffurfir â rhwymedigaethau penodol sy'n ymwneud â datblygiad. Lle bo'n briodol, defnyddir amodau cynllunio yn gyntaf yn hytrach na rhwymedigaethau cynllunio, er y bydd angen cyfuniad o'r ddau yn aml yn achos safleoedd mwy a mwy cymhleth.

5.73 Fel arfer, bydd angen rhwymedigaethau cynllunio ecolegol lle mae darpariaethau mesurau digolledu oddi ar y safle yn angenrheidiol neu lle mae angen cyfraniadau ariannol i sicrhau na fydd unrhyw effeithiau niweidiol ar fioamrywiaeth.

5.74 Fel rheol, ni fydd yr ACLl yn pennu amodau yn ymwneud ag arolygon o rywogaethau a warchodir, ac fel arfer, ni fyddai'n ystyried gwneud hynny ar gyfer unrhyw waith datblygu a drefnir. Yn unol â'r dull cam wrth gam, dylid

cynnal gwaith arolygu cyn gynted â phosibl er mwyn i fesurau i gynnal a gwella bioamrywiaeth gael eu hintegreiddio yn nyluniad y datblygiad. Fodd bynnag, gall yr Awdurdod Lleol bennu amodau cynlluniau sy'n ymwneud â lliniaru, mesurau digolledu a gwelliannau bioamrywiaeth, yn ogystal ag argymhellion a wneir o fewn arolwg penodol, os bydd angen. Er enghraifft, gallai'r Awdurdod Lleol ofyn am amodau sy'n ymwneud â gofynion ynghylch tirweddu, creu cynefinoedd, mesurau gwella, cynlluniau goleuo, rheolaeth hirdymor, methodolegau clirio, Cynlluniau Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CRHAA) a Chynlluniau Rheoli Tirwedd ac Ecoleg (CRhTE).

5.75 Os yw planhigion sy'n RhEG a restrir yn Atodiad 9 Rhan II adran 14(2) Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) yn bresennol ar safle cais cynllunio (e.e. clymog Japan), bydd amod RhEG (planhigion) yn cael ei bennu mewn perthynas â'r cais hwnnw i sicrhau'r y caiff y RhEG honno ei rheoli'n briodol a'i monitro'n rheolaidd.

Cam Rheoli Datblygiad	Camau Perthnasol y Broses Cam wrth Gam
Cais – Rheoli a Monitro	**Rheoli, Monitro**

5.76 Erbyn y cam hwn, bydd y caniatâd cynllunio a'r amodau cysylltiedig wedi pennu gofynion rheoli a monitro cyn, yn ystod ac ar ôl y gwaith adeiladu. Fel arfer, cytunir ar y gwaith o baratoi a gweithredu'r cynllun rheoli a monitro priodol fel rhan o'r cynlluniau sydd angen eu cyflwyno i roddi cydsyniad. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, gall fod yn briodol pennu amodau yn ymwneud â pharatoi a gweithredu cynllun rheoli a monitro ar ôl cydsyniad.

5.77 Bydd y cynllun yn manylu ar amcanion rheoli ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau presennol, y rhai gânt eu cynnal a'r rhai a gânt eu creu, a bydd yn cynnwys manylion ynghylch rheoli a monitro parhaus, yn unol â'r angen. Bydd y cynllun yn aml yn cynnwys 'Cynllun Cyfyngiadau a Pharamedrau Ecolegol' (CCPhE) a fydd yn dangos bod nodweddion ecolegol priodol wedi'u

hintegreiddio yn y datblygiad. Dylai ymgeiswyr nodi y bydd datblygiadau mwy eu, yn enwedig y rhai sy'n destun Asesiad o'r Effeithiau ar yr Amgylchedd, yn gofyn am CRHAA. Nododd 'Cymdeithas Ymchwil a Gwybodaeth y Diwydiant Adeiladu' ganllawiau ar gyfer dulliau a mesurau gweithio ar safle datblygu lle mae bioamrywiaeth yn bresennol, gan gynnwys cynnwys arfaethedig ar gyfer CRHAA ac asesiadau o risgiau, manylion ynghylch gosod parthau gwaharddedig, ffensys amddiffynnol a mesurau ymarferol eraill. Dylai'r cynllun rheoli nodi mecanweithiau cyllido hirdymor yn eglur, nodi pa bartïon sy'n gyfrifol am ei weithredu, a chynnwys mesurau eglur ar gyfer llwyddiant.

5.78 Bwriad monitro yw gwirio cydymffurfiaeth ag amodau neu rwymedigaethau cynllunio, a hefyd canfod a yw'r mesurau a weithredir yn effeithiol ac yn llwyddo i gyflawni'r canlyniadau bwriadedig.

5.79 Yn ystod y gwaith adeiladu, dylai rheolwyr y safle ddilyn canllawiau priodol i ddiogelu cynefinoedd a rhywogaethau, gan gynnwys coed a nodweddion ecolegol a gânt eu cynnal ar y safle a fydd yn rhan o'r cynllun rheoli a monitro cyffredinol. Lle bo'n briodol, bydd yr amddiffyniad ar ffurf trwyddedau datblygu a ddyroddir gan CNC.

Atodiad A – Adnoddau Allanol

1. BSI - BS42020:2013 - British standard for Biodiversity – Code of Practice for Planning and development
2. BSI - BS8683:2021 - Process for designing and implementing Biodiversity Net Gain – Specification
3. CIRIA - B£ST – Benefits Estimation Tool
4. Building Research Establishment (BRE) - Home Quality Mark guide
5. Sintali - Building with Nature – the defining standard of high-quality green infrastructure
6. Valuing Nature Network - Demystifying Series
7. IEMA - Environmental Impact Assessment Guide to Delivering Quality Development
8. National Biodiversity Network
9. CIEEM - Registered ecological consultants directory
10. CIEEM – Guidelines for Preliminary Ecological Appraisal (GPEA)
11. CIEEM - Ecological Impact Assessment (EcIA) Checklist
12. Biodiversity in Planning - Wildlife Assessment Check
13. CIEEM - Guidelines for Ecological Impact Assessment in the UK and Ireland: Terrestrial, Freshwater, Coastal and Marine
14. CIEEM - Advice Note on the lifespan of ecological reports and surveys
15. CNC – Cyngor ynghylch trwyddedau a chaniatadau
16. CNC - Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (2025)
17. CNC – Datganiad Ardal Canol De Cymru
18. Buglife - Creating green roofs for invertebrates: Best practice guidance
19. Bat Conservation Trust - Designing for Biodiversity: a technical guide for new and existing buildings

20. TCPA - Green Infrastructure and Biodiversity. PERFECT Fact Sheet
21. CIRIA, CIEEM, IEMA - Biodiversity Net Gain: Good practice principles for development.
22. The Wildlife Trusts - Homes for People and Nature: How to build housing in a nature friendly way
23. Bat Conservation Trust - Landscape and Urban Design for Bats and Biodiversity
24. Plantlife - Managing Grassland Road Verges: Best practice guidance
25. Trees and Design Action Group (TDAG) - Trees Species selection for Green Infrastructure
26. Partneriaethau Natur Lleol (PNLI) Cymru
27. National Wildlife Crime Unit
28. Partneriaeth dros Weithredu yn erbyn Troseddau Bywyd Gwyllt (PAW)
29. Llywodraeth Cymru - Safonau Cenedlaethol Statudol ar gyfer Draenio Cynaliadwy
30. SusDrain - National Standards for Sustainable Drainage
31. Ciria - SuDS Manual (Chapter 6 part B - Designing for Biodiversity)
32. Freshwater Habitats Trust - The Pond Creation Toolkit
33. Bat Conservation Trust - Planning and the law
34. Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru - Canllawiau ar Fioamrywiaeth yng Nghymru, gan gynnwys canllawiau ar fioamrywiaeth dyletswydd S6 a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio
35. RSPB, CIEEM a RTPI - Planning naturally: Spatial planning with nature in mind in the UK and beyond
36. TCPA - Planning for green and prosperous communities. Guide 7 Practical Guides for Creating Successful New Communities
37. Comisiwn Dylunio Cymru – Canllaw Creu Lleoedd Cymru

38. Llywodraeth Cymru - Adeiladu Lleoedd Gwell: Y System Gynllunio: Darparu Dyfodol Gwydn a Gwell

39. CNC - Rhwydweithiau Ecolegol Cadarn Tir a Dŵr Croyw: canllaw i ymarferwyr yng Nghymru

40. BS - British Standard for Biodiversity (BS 42020:2013)

41. Institution of Lighting Professionals / Bat Conservation Trust – Bats and Artificial Lighting Guidance Note

42. Llywodraeth Cymru – Polisi a chanllawiau cynllunio: seilwaith gwyrdd

43. CNC – Asesiadau Seilwaith Gwyrdd: Canllaw i setiau data allweddol Cyfoeth Naturiol Cymru, a sut i'w defnyddio fel rhan o Asesiad Seilwaith Gwyrdd

44. Llywodraeth Cymru – Rhestr Adran 7: rhywogaethau a chynefinoedd o bwysigrwydd pennaf yng Nghymru

45. Swift Conservation – Swift bricks and development

46. Hedgehog Street – Hedgehogs and development

47. Parc Cenedlaethol Eryri – Adnoddau bioamrywiaeth a chynllunio

48. Amphibian and Reptile Conservation Trust – Planning & development

Atodiad B – Rhestr wirio ar gyfer arolygon o rywogaethau gwarchodedig/blaenoriaethol sy'n debygol o fod yn ofynnol ar gyfer safleoedd datblygu tir

Mathau o ddatblygiad	Math o arolwg o rywogaethau sy'n debygol o fod yn ofynnol	Rhestr wirio
Trawsnewid, addasu, dymchwel neu symud adeiladau:		
1.a Adeiladau amaethyddol (e.e. tai fferm, ysguboriau a thai allan) ag adeiladwaith traddodiadol o frics neu gerrig a/neu gyda thrawstiau pren agored*	Tylluanod gwynion, ystlumod, adar magu	
1.b Adeiladau a strwythurau ag estyll a/neu deils crog; neu 1.c Adeiladau a strwythurau sengl cyn-1960 - sydd o fewn 200m i goetir a/neu ddŵr 1.d adeiladau a strwythurau cyn-1914 – sydd o fewn 400m i goetir a/neu ddŵr*	Ystlumod, amffibiaid, tylluanod gwynion, madfallod cribog, adar nythu, dyfrgwn	
1.e adeiladau a strwythurau cyn-1914 â thalcenni neu doeau llechi, lle bynnag y maent	Ystlumod, adar nythu	
2. Datblygiad sy'n effeithio ar strwythurau adeiledig:		
2.a. twneli, mwyngloddiau, ffwrneisi, tai iâ, amddiffynfeydd milwrol, llochesi rhag ymosodiadau awyr, seleri a phibelli a strwythurau tanddaearol tebyg	Ystlumod	
2.b. strwythurau pontydd, dyfrffyrdd thraphontydd (yn enwedig dros ddŵr a thir gwlyb)	Ystlumod, adar magu, dyfrgwn, llygod y dŵr	
3. Goleuadau/llifoleuadau o:		

Mathau o ddatblygiad	Math o arolwg o rywogaethau sy'n debygol o fod yn ofynnol	Rhestr wirio
3.a eglwysi ac adeiladau rhestredig, mannau gwyrdd (e.e. caeau chwaraeon) o fewn 50m i goetir, dŵr, gwrychoedd caeau neu linellau o goed â chysylltedd â choetir neu ddŵr	Ystlumod, moch daear, adar magu, dyfrgwn	
3.b. adeiladau amaethyddol (e.e. tai fferm, ysguboriau ac adeiladau allanol) ag adeiladwaith brics neu garreg draddodiadol a/neu â thrawstiau pren agored	Ystlumod, tylluanod gwynion, adar nythu	
3.c. afonydd, nentydd, sianeli, llynnoedd, pyllau neu gynefinoedd dŵr eraill (cyrff dŵr)	Amffibiaid, ystlumod, adar magu, dyfrgwn, llygod dŵr, pysgod, infertebratau dyfrol	
3.d. tir prysgwydd neu goetir	Tylluanod gwynion, ystlumod, adar magu, pathewod, dyfrgwn	
4. Cwympo, symud neu docio:		
4.a. coetir 4.b gwrychoedd a/neu resi o goed â chysylltedd â choetir neu gyrff dŵr	Ystlumod, moch daear, pathewod, dyfrgwn, planhigion, adar magu	

Mathau o ddatblygiad	Math o arolwg o rywogaethau sy'n debygol o fod yn ofynnol	Rhestr wirio
4.c. hen goed sy'n hŷn na 100 mlwydd oed 4.d. coed aeddfed â thyllau, craciau neu geudodau amlwg (a choed mawr marw hefyd)	Ystlumod, tylluanod gwynion, adar magu, planhigion, infertebratau	
4.e. symud coed aeddfed/lled-aeddfed oddi ar lannau afonydd	Ystlumod, adar magu, dyfrgwn	
5. Cynigion sy'n effeithio ar byllau o ran		
5.a. ceisiadau o fewn 500m i bwll sydd wedi'i farcio ar fap yr OS 5.b. ceisiadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar unrhyw bwll	Madfallod cribog, amffibiaid, infertebratau dyfrol, llygod y dŵr, dyfrgwn, pysgod	
6. Cynigion sy'n effeithio ar gyrff dŵr:		
6.a. mewn neu o fewn 200m i afonydd, nentydd, sianeli, llynnoedd, gwelyau cyrs neu gynefinoedd dŵr eraill (cyrff dŵr)	Ystlumod, dyfrgwn, madfallod cribog, amffibiaid, adar magu, planhigion, ymlusgiaid, llygod y dŵr, pysgod, infertebratau dyfrol	

Mathau o ddatblygiad	Math o arolwg o rywogaethau sy'n debygol o fod yn ofynnol	Rhestr wirio
7. Cynigion wedi'u lleoli yn neu'n union gerllaw:		
7.a. chwareli 7.b. wynebau creigiau naturiol a brigiadau o greigiau â holltau neu ogofâu (gweler hefyd y canllawiau penodol ar ddatblygiadau morol/arfordirol).	Ystlumod, adar magu	
7.c. tir segur (safleoedd tir llwyd), rhandiroedd a thir y rheilffyrdd 7.d tir âr neu borfa 7.e cynefinoedd nad ydynt, yn ôl bob golwg, yn cael eu rheoli (e.e. llwyni, glaswelltir gwyllt)	Ystlumod, moch daear, adar magu, ysgyfarnogod, planhigion, ymlusgiaid	
8. Ynni adnewyddadwy		
8.a. Tyrbinau gwynt lluosog 8.b. Tyrbinau gwynt unigol 8.c. Araeau solar	Ystlumod, adar magu, adar nythu, arolygon o adar o mewn mannau a ffafrir ganddynt	
9. Datblygiad Deiliad Tŷ		
	Ystlumod, tylluanod gwynion, adar nythu, madfallod cribog	

Atodiad C – Tymhorau Arolygon Ecolegol – Rhywogaethau'r Tir

	Ionawr	Chwefror	Mawrth	Ebrill	Mai	Mehefin	Gorffennaf	Awst	Medi	Hydref	Tachwedd	Rhagfyr
Moch Daear												
Ystlumod (clwydi'r gaeaf)												
Ystlumod (gwelyau haf)												
Ystlumod (chwilota am fwyd/teithio)												
Adar (magu)												
Adar (gaeafu)												
Pathewod												
Madfallod Cribog (Daeardrig)												
Madfallod Cribog (Dyfrol)												
Amffibiaid eraill												

Infertebratau												
Dyfrgwn												
Ymlusgiaid												
Llygod y dŵr												
Cynefinoedd/Llys tyfiant												

ALLWEDD:

Amser arolygu optimaidd **Amser arolygu is-optimaidd**


Cyngor Bwrdeistref Sirol
Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND
County Borough Council